# Y CARDI BACH

**Papur Bro Dyffryn Taf**

*Cariad o beth Cardi Bach*

Rhifyn 465 | Hydref 2025 | Pris £1.50


## GWOBRAU PODLEDIAD PRYDEINIG



Sioned Snelson a Mari Grug

Llongyfarchiadau mawr i Mari Grug a Sioned Snelson ar ennill gwobr yng nghategori Cymraeg Gwobrau Podlediad Prydeinig sef Lleisiau Cymru 1 mewn 2 yn ddiweddar.
Bu Mari yn trafod pob math o agweddau yn ymwneud a cancr, yn y gyfres o 6 podlediad, gan gynnwys diagnosis, llawdriniaeth, rhannu'r newyddion gyda'r teulu, chemotherapi, radiotherapi, iechyd meddwl a byw gyda'r salwch. Gwnaeth y podlediadau gynorthwyo cannoedd o bobol sy'n brwydro yn erbyn y cancr dieflyg ac roedd clywed am brofiadau'r cyfranwyr yn ysbrydoliaeth i lawer. Mae modd gwrando nol ar y podlediadau ar BBC Sounds. Cyflwynodd Mari'r wobr er cof am Jill Lewis o Langlydwen a Wil Beynon o Landdarog. Bydd rhaglen deledu'n cael ei ddarlledu ar ddiwedd y mis hwn sef "Mari Grug: Un Dydd ar y Tro". Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hwn, bydd Mari hefyd wedi lawnsio ei llyfr "Dal i fod yn fi". Dymuna'r Cardi Bach ddiolch o galon i Mari am fod yn gymaint o ysbrydoliaeth i gymaint o bobol – dymuniadau gorau i ti Mari fach. ( Gol )

## G WILLIAMS A'I FEIBION, SANCLÊR - DATHLU 150 MLYNEDD O FASNACHU

Mae G Williams a'i feibion yn fusnes teuluol sydd yn cyflenwi ac yn gosod amrywiaeth o gofebion yn cynnwys: cerrig bedd, tabledi amlosgiadau, fasau, placiau coffa a placiau cartrefi yn ogystal â chofebion anifeilaid anwes. Maent yn cyflenwi i ardaloedd gwahanol, yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, ac mae ganddynt swyddfeydd yn: Sancler, Aberteifi, Abergwaun, Hwlffordd a Chaerfyrddin. Mwy o hanes ar dudalen 26. Dymuna'r Cardi Bach longyfarch G Williams a'i feibion a'r ddathlu 150 mlynedd o fasnachu (Gol)



Gilbert Williams (perchennog presennol)


Randal Williams (tad Gilbert)


Gilbert Williams (tadcu Gilbert)

***DALIER SYLW***

**Rhifyn nesaf fydd rhifyn y Nadolig. Nid oes rhifyn i gael yn mis Tachwedd. Rhaid cael y newyddion, lluniau a chyfarchion Nadolig personol (gyda thâl o £5) erbyn dydd Llun, Tachwedd 17eg (fan pellaf). Croeso i chi anfon cyfarchion personol, naill a'i i ycardibach@btinternet.com neu Meirwen Evans.**

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips 07930 520564<br>46 Resevoir Road Tanerdy Caerfyrddin SA31 2ER |
| **Clonc a phosau** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

**Byd Bach**

Mae'r gwyliau priodas arian ar ben a ninnau wedi teithio o Sanclêr i Singapore ac yna Bali ac yn ôl. Ac roedd hi'n dipyn o daith! Bws o Sanclêr i Gaerfyrddin, trên o Gaerfyrddin i faes awyr Heathrow ac yna taith 13 awr mewn awyren i weld rhyfeddodau Singapore.


Dyma le gwefreiddiol, sydd mor daclus a glân, ac er bod Cymru mor bell i ffwrdd, mae dylanwad Cymro Cymraeg yn amlwg ar un o adeiladau amlyca'r ddinas, sef gwesty'r Marine Bay Sands. Guto ab Owain o Rowen yng Nghonwy ddyluniodd y pwll nofio ar gopa'r adeilad enfawr. Gan fy mod i ofn uchder, yn anffodus doedd hi ddim yn bosib i mi gyrraedd y brig er mwyn edmygu'r pwll nofio. Ond mae'n destun balchder mai Cymro Cymraeg ddyluniodd y fath ryfeddod.

A'r hyn sydd wastad yn codi calon wrth deithio yn bell hefyd ydy pan fo rhywun yn clywed y Gymraeg. Ac unwaith eto ar y blaned enfawr hon, fel ar nifer o deithiau eraill, roeddem digwydd bod yn yr un lle ar yr un pryd â Chymry Cymraeg eraill. Hyfryd oedd cyfarfod â dwy o Gaerfyrddin a Chastell Newydd Emlyn ar gopa adeilad gweddol dal yn Singapore. Rydw i weithiau yn mentro i dir uwch, er gwaetha'r salwch yn fy mol!

Ac yna ar ôl dychwelyd i'r gwesty, ac eistedd wrth ymyl y pwll am ryw awr, daeth llais o wely cyfagos, yn gofyn o ble yng Nghymru roeddem yn dod? A difyr oedd clywed hanes athrawes ddawns o Hwlffordd, a oedd bellach yn byw Bangkok, Gwlad Thai ac wedi treulio dros ddegawd yn Fietnam. Roedd hi ar gwrs yn Singapore, ac yn mwynhau bywyd i'r eithaf yn y Dwyrain Pell. Ydy, mae'n fyd bach - ry'n ni'r Cymry ym mhobman!

Wedi i ni deithio ymhellach i Ynys Bali, chlywson ni ddim y Gymraeg y tro hyn, ond wrth i ni gael ein cludo ar hyd lonydd prysur cul yr ynys i ganol y jwngl – taith ddwy awr – roedd enwau ambell siop yn codi gwên.

Bum mlynedd ar hugain ers i ni briodi yng Nghapel Madog ger Capel Dewi, fe deithiom i ben draw'r byd i weld siop fêps Madog, a Salon 'massage' Dewi! Wedi i mi ofyn, mae'n debyg mai 'tywysoges' yw ystyr 'Dewi' yn iaith frodorol Bali. Mae'n fyd bach, llawn rhyfeddodau!



Campwaith y Cymro Cymraeg Guto ab Owain, ar gopa'r adeilad yn y cefndir .

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Trefina Jones
01267 211210
tjtrefina@aol.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch. Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
Tabernacl Heather Jenkns
Meryl James
meryljames534@btinternet.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Eurfyl Lewis
01994 419495
eurfyllewis@btinternet.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Hedd Ladd Lewis*

**Myfyrdod:**

Mae'r weithred  o aredig yn ddelwedd sy'n cael ei defnyddio'n fynych gan awduron yr Hen Destament a'r Newydd. Maen nhw'n defnyddio'r ddelwedd o'r amaethwr yn torri'r tir caled fel galwad i weithredu'n ysbrydol a chymdeithasol. Pan fo'r tir yn galed ac yn ddiffrwyth mae angen ei drin a'i weithio. Dyna mae'r aradr yn ei wneud gyda chymorth y gwas a'r ychain. Mae'r gwas yn torri caledwch y tir diffrwyth o'r newydd ac yn ei baratoi ar gyfer hedyn newydd, ar gyfer twf newydd. Yn llyfr Hosea [10:12], clywn yr alwad:

'Heuwch hadau cyfiawnder, a chewch gynhaeaf o gariad gen i. Trin tir eich calon galed – ceisio'r Arglwydd nes iddo ddod gyda chawodydd achubiaeth.'

Yn aml mae'r galon ddynol fel cae sydd heb ei drin, wedi caledu ac yn ddiffrwyth, ond mae awdur y geiriau yma yn Hosea yn galw ar i bobl  feddalu eu calonnau, chwalu'r cylch o boen a gormes sy'n eu gorthrymu ac yn eu llethu, a chaniatáu i dwf newydd gymryd lle'r anialdir blaenorol. Mae'r geiriau hefyd yn ein hannog i ymwrthod ag anghyfiawnder ac anwybodaeth ac i weithredu. Yn Salm 126: 5-6 clywn gri'r awdur am gyfiawnder yn wyneb anobaith.

Bydd y rhai sy'n wylo wrth hau yn canu'n llawen wrth fedi'r cynhaeaf. Mae'r un sy'n cario sach o hadau yn crïo wrth fynd i hau. Ond bydd yr un sy'n cario'r ysgubau yn dod adre dan ganu'n llon.

Yn wyneb gweithredoedd erchyll Israel  yn Gaza gyda'i byddin yn fwriadol lladd sifiliaid wrth y degau o filoedd, yn dinistrio eu cartrefi, yn chwalu ysbytai a llofruddio gweithwyr iechyd a gohebwyr ac yn atal bwyd a dŵr rhag cyrraedd y rhai sydd wedi goroesi y dwy flynedd ddidrugaredd diwethaf, digon naturiol byddai digalonni. Digon hawdd byddai teimlo yn hollol ddiymadferth yn wyneb methiant ein gwleidyddion i ddwyn y galanas yma  i ben.

Ond mae'r ysgrythurau yn ein hatgoffa fod hyd yn oed y weithred lleiaf yn gallu goleuo'r tywyllwch. Pan oedd y proffwyd Jeremia wedi ei garcharu a'r unig beth a welai oedd dinistr fe orchmynodd Duw iddo brynu cae yn Anathoth fel arwydd y byddai '' tai a chaeau a gwinllanoedd yn cael eu prynu yn y wlad yma eto'' [32:15] Yng ngolwg ei gyfoedion roedd gweithred Jeremeia yn un ffôl, ond fe lynodd wrth addewid Duw. Yn y weithred yma mae yna alwad ar i ni i weithredu er gwaethaf ein teimladau o ddiymadferthedd yn wyneb y fath drais a chasineb. Fel gyda geiriau'r Proffwydi a'r Salmydd mae yna anogaeth i ni weithredu yn heddychlon yn wyneb anghyfiawnder, rhyfel a thrais. Dywedodd Iesu:

'Gwyn eu byd y rhai sy'n dod â heddwch, oherwydd fe'u gelwir yn blant Duw' [Mathew 5:9]

Felly sut gallaf i 'dorri'r tir caled' er cyn lleied fyddai'r weithred?  Sut gallaf 'dorri'r tir caled' er gwaethaf y ffaith bod eraill yn y gymuned yn credu bod fy ngweithredu yn ddiwerth yn wyneb y fath erchylltra? Gallaf weithredu'n heddychlon boed hynny yn eiriol, drwy rannu'r gwir, drwy sefyll ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r gorthrymedig. Mae gweithredu'n heddychlon yn weithred o weddi fyw sy'n herio anghyfiawnder ac yn agor drysau i obaith.

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Tybed ydych chi'n un o'r rhai sydd o'r farn bod gormod o nofelau ditectif a thrais fel sydd efallai o ddramâu teledu treisgar? Os felly mae'n siŵr bod darllenwyr y golofn hon yn meddwl fy mod innau'n darllen llawer iawn gormod ohonyn nhw hefyd – ymddiheuraf am hynny. Mae cymaint ohonyn nhw onid oes – a'n hoffter ohonynt, yn ôl y seicolegwyr, am eu bod yn apelio at ein synnwyr greddfol o gyfiawnder a thegwch. Y da sy'n trechu yn y diwedd fel rheol. Dyma ddau arall a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Y gyntaf yw **Penllechwedd** gan Rhiannon Thomas a ddaeth yn agos at y brig am wobr Daniel Owen yn Eisteddfod Tregaron 2022. Roedd dwy yn y clwb darllen wedi methu â'i rhoi lawr medden nhw! Felly dyna gymeradwyaeth iddi. Nofel dditectif draddodiadol yw hi gyda llofruddiaeth erchyll merch ifanc i'w datrys a sawl un dan amheuaeth o'r drosedd. Ydy, mae'n hynod o ddarllenadwy, yn darlunio cymdeithas cefn gwlad a'r ddeialog yn llifo. Roedd rhaid i mi ganolbwyntio ar y dechrau oherwydd bod cymaint o gymeriadau gwahanol, y llu heddlu dan arweiniad Annest Rhys a thrigolion niferus y pentref, nifer o'r rheini â'u problemau amrywiol. Daliwyd y troseddwr yn y diwedd a chafwyd cyfiawnder. Gosodwyd sawl nofel yn y dosbarth cyntaf yn Wrecsam eleni ac mae'n siŵr y caiff rhai ohonynt eu cyhoeddi maes o law fel hon.

Yr ail yw un y nofelydd profiadol, Llwyd Owen, sef **Bechgyn drwg am byth.** Mae'n gosod nifer o'i nofelau tua diwedd y ganrif ddiwethaf cyn bodolaeth ffonau symudol ac ati meddai er mwyn osgoi cymhlethdod y rheini! Y prif gymeriad yw'r milwr Rob Evans a'r hanes yn dechrau yn Sarajevo ym 1994 gyda'r hil-laddiad a ddigwyddodd yno. Lladdwyd dros wyth mil o Foslemiaid Bosnia mewn mis a'r fyddin yn rhan o ymdrechion llu rhyngwladol yno– rwy'n cofio ymweld â'r wlad ddeng mlynedd yn ôl bellach a thystio i'r hanes erchyll. Mae'n dychwelyd i Erddi Hwyan am y tro cyntaf ers iddo adael cartref adeg streic y glowyr, a hynny i angladd ei dad ac mae'n gweld ôl effaith hynny ar y gymdeithas. Mae dyledion gan ei frawd a newyddion annisgwyl gan ei hen gariad Jen. Caiff ei lusgo i fyd y giangstars ac mae'n rhyfedd sut y cawn ninnau 'r darllenwyr ein tynnu mewn i'r byd hwnnw a'i iaith gref. Ni chafwyd cyfiawnder llwyr y tro hwn gan mai'r gwrth-arwr sy'n camu i'r bwlch gan ddefnyddio dulliau amheus a dweud y lleiaf. Nid nofel i'r gwangalon mo hon ond mae'r ysgrifennu'n rymus, yn 'symffoni dreisiol, greulon, lawn cariad ac emosiwn pur,' yn ôl Ffion Dafis. Pan fo Manon Steffan Ros yn cyhoeddi llyfr mae'n rhaid ei gael er mai nofel i bobl ifanc yn eu harddegau cynnar y bwriedir y llyfr – er cofiwch mai dyna gynulleidfa darged **Llyfr Glas Nebo** yn wreiddiol a honno wedi ennill gwobrau lu. Mae **Y Cae Ras** wedi'i lleoli yn Wrecsam wrth gwrs – tîm y byddwn yn ei gefnogi yn ein tŷ ni gan mai yno y magwyd y gŵr! Yr efeilliaid, Mali a Danny, sy'n adrodd yr hanes yn eu tro a hwythau yn profi heriau teuluol tor-priodas, ac er yn efeilliaid mae'r ddau o anian gwahanol iawn ac yn ymateb yn wahanol felly i ddyfodiad partner newydd eu mam. Mae'n stori afaelgar wedi'i hysgrifennu'n sensitif ac yn addas iawn i rai yn eu harddegau. Nofel i'w phrynu'n rhodd efallai.

Cyfrol a fydd wedi cael ei lansio erbyn cyhoeddi hwn yw **Dal i fod yn fi**, sef hanes dewr y cyflwynydd Mari Grug. Dylem i gyd ddarllen ei stori ddirdynnol a hithau' n byw yn ardal Y Cardi Bach.

# Clonc a Phosau John Arfon

Yn anffodus mae'r glaw wedi dod o'r diwedd, ac ar hyn o bryd mae'n ddi-stop, ond trwy lwc rwyf wedi codi llawer o flodau oedd wedi gweld eu gwell, ond mae llawer iawn eto gennyf i'w glirio. Diolch am wythnos heulog a gweddol sych cyn diwedd y mis.

Bum am benwythnos yn Blackpool gyda chwmni Bysiau Cwm Taf yn ddiweddar, ond yn anffodus ni chefais gwmni fy ffrind Les Evans o Langynin oherwydd salwch. Mae Les wedi bod gyda sciatica a gallaf gydymdeimlo yn fawr ag ef oherwydd bu wythnosau cyn imi gael ei wared. Brysia wella Les, rwy'n colli dy gwmni.

Aeth nifer dda o'r ardal ar brynhawn Sadwrn, Medi 13eg i gapel Seion, Drefach i gyfarfod sefydlu Y Parch. Guto Llywelyn yn weinidog ar Eglwysi Annibynol Bethesda, Tymbl, Seion, Drefach, a Nazareth, Pontiets. Cafwyd gwasanaeth arbennig dan lywyddiaeth eu cyn weinidog, y Parch. Gwyn Elfyn Jones. Cyflwynwyd y Parch. Guto Llywelyn iddynt ar ran ofalaeth yr ardal hon gan Meryl James. Yn dilyn y sefydlu cafwyd pregeth gryno a phwrpasol gan y Parchg Beti Wyn James. Cafwyd lluniaeth ysgafn yn dilyn y gwasanaeth yn y Festri. Bu Guto yn weinidog yma yn y Tabernacl, Hendygwyn, y Trinity, Llanboidy a Bethel Llanddewi Efelfre am dros ddeng mlynedd. Diolchwn iddo am ei wasanaerh clodwiw a byddwn yn ei golli yn fawr iawn, ond dymunwn pob llwyddiant, iechyd a hapusrwydd iddo yn ei ofalaeth newydd.

Gyda thristwch mawr iawn y clywsom am farwolaeth syfrdanol o sydyn merch Dylan a Hannah (o Gyffig) yn ddiweddar. Rwy'n siwr y bydd ei thad a'i mam Richard a Non Murray a'r teulu a hefyd holl deulu Coed Llys yn gefn a chymorth enfawr iddynt yn eu profedigaeth a thros yr amser torcalonnus hyn. Gallwn ond gobeithio y daw heulwen eto i'w bywydau yn y dyfodol i gilio'r cymylau duon.

Blin iawn hefyd oedd clywed am anffawd Jean Parri-Roberts yn torri ei chlun wedi cwymp. Cafodd law-driniaeth yng Nghaerdydd a threulio peth amser yn ysbyty Glangwili, ond adref yn awr ac yn dal i wella. Pob dymuniad da Jean.

Sioc arall enbyd i'r ardal oedd clywed am ddamwain erchyll i Dafydd, mab Wyn a Meirwen Evans, Cwmfelin Mynach, rhai wythnosau'n ôl. Mae Dafydd ar hyn o bryd dan ofal arbenigwyr a staff Ysbyty'r Heath, Caerdydd ac yn cael y gofal gorau posib. Rydym i gyd yn gweddio drosto ac yn dymuno'n dda iddo gan obeithio y caiff wellhad yn fuan.

Unwaith eto mae llawer yn yr ardal wedi colli annwyliaid. Estynnwn ein cydymdelmlad dwysaf a hwy i gyd. I orffen gyda nodyn hapusach, hoffwn roi llongyfarchiadau mawr iawn i Euros Rhys Evans a Sian, (y Barri) ar enedigaeth ei wyres Lleucu Ifan Gruffydd, merch i Elen a'i gŵr Deio. Dymunwn pob iechyd, hapusrwydd a'r gorau iddynt i gyd yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau hefyd i Aled Adams, Hendygwyn ac Amy o Gaerfyrddin ar eu priodas yn Gretna Green, yr Alban ychydig wythnosau'n ôl.

Dyma atebion y Cencen a Chwilair y mis diwethaf

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| O | X | X | O | X | O |
| X | X | O | O | X | O |
| O | O | X | X | O | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 9 | 2 | 5 | 7 | 4 | 6 | 1 | 3 |
| 7 | 5 | 6 | 9 | 3 | 1 | 2 | 8 | 4 |
| 1 | 3 | 4 | 6 | 2 | 8 | 9 | 7 | 5 |
| 3 | 1 | 7 | 2 | 8 | 9 | 5 | 4 | 6 |
| 4 | 9 | 8 | 3 | 6 | 5 | 7 | 2 | 1 |
| 6 | 2 | 5 | 1 | 4 | 7 | 8 | 3 | 9 |
| 5 | 8 | 9 | 7 | 1 | 3 | 4 | 6 | 2 |
| 6 | 7 | 3 | 4 | 9 | 2 | 1 | 5 | 8 |
| 2 | 4 | 1 | 8 | 5 | 6 | 3 | 9 | 7 |

**Dyma ddau i'ch diddori mis hwn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | O | | | O | |
| | | | | | X |
| X | | | | X | |
| | | O | X | | O |
| | | O | | O | |
| | | | | | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 4 | | | |
| 8 | 9 | | | | | | | |
| 1 | | | 2 | 6 | | 5 | 7 | |
| | | | | 2 | 6 | | | 1 |
| | | | | | | 4 | 9 | |
| | | 6 | 8 | | 5 | | | |
| 9 | | | 1 | 8 | 7 | | 6 | 2 |
| 6 | 7 | | | 4 | | | | |
| 3 | | | | | | | 8 | |

Yng nghystadleuaeth yr Olwyn Fawr mis diwethaf, roedd pob ateb oedd i ffitio mewn yn chwe llythyren o hyd, ac yn diweddu gyda **N**, ac felly **N** oedd yngnghanol y cylch.


Dyma atebion y cliwiau: 1 .Ocsiwn, 2. Wybren, 3. Almaen, 4. Islwyn. 5. Neilon, 6. Galwyn, 7. Locsyn, 8. Ymddwyn, 9. Niwlen, 10. Darlun, 11. Wfftian, 12. Rwdlan.
Wrth ddarllen llythrennau cyntaf pob ateb dylech fod wedi cael yr ateb oedd eisiau sef **OWAIN GLYNDWR.**

Yr ail bôs oedd llenwi y grid gyda'r rhifau a roddwyd. Dyma'r ateb cywir.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | 7 | 9 | 4 | 3 | 5 | 2 | |
| 3 | | 1 | 9 | | 2 | 8 | | 3 |
| 9 | 2 | 8 | | | | 2 | 5 | 9 |
| 3 | 0 | 6 | 3 | | 2 | 4 | 1 | 3 |
| 6 | 1 | 2 | 9 | 4 | 8 | 3 | 4 | 7 |
| 5 | 0 | 9 | 3 | | 2 | 5 | 4 | 5 |
| 2 | 4 | 2 | | | | 3 | 8 | 2 |
| 8 | | 4 | 7 | | 6 | 8 | | 8 |
| | 2 | 7 | 8 | 6 | 6 | 7 | 8 | |

---


**Y pôs cyntaf** y mis hwn yw ateb y cliwiau yn eu llefydd priodol, ac yna ail drefnu y llythrennau sydd yn y blychau llwyd i roi enw lle yng Nghymru.
Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel DWY lythyren.



1. Ysbaid
2. Tafellau o fara menyn
3. Caer
4. Tymor o'r flwyddyn
5. Erfyniwr
6. Iaith y nefoedd !!
7. Digalondid
8. Dod yn ôl
9. Disgleirio
10. Cenadwri
11. Trychineb

---

**Yr ail bôs** yw cwblhau y Croesair canlynol.
Cymerir ch, dd, ff, ng, ayyb fel un llythyren.



Ar Draws
1. Warws Syr Tod efallai
4. Tri cynnig i hwn yn ôl y dywediad.
7. Cyflwynodd gymeriadau Cefn Gwlad. (3, 7)
8. Blagur neu flaenffrwyth.
9. Mam yng nghyfraith Ruth.
11. Un o ieithoedd Celtaidd mwyaf poblogaidd.
13. 'O'dd un dew' yn ceisio dynodi ?
15. Canlyniad syrthio yw cwymp.
17. Clywais lais Iesu'n dweud 'Tyrd ---- fi yn awr'.
18. Te a hen glud all gynhyrchu epil.
20. Anifail o Sir Geredigion neu Benfro.
21. Offeryn i gyflawni gwaith arbennig

I Lawr
1. Bu un gyffredinol fawr yn 1926.
2. Yr awr hon neu yn awr i'r Gog.
3. Bod yn llon neu'n hapus. (2,5)
4. Achwyn, cwyno neu wrwgnach wna'r Hwntw.
5. Anifail oedd ar y diwedd am ddau gymal.
6. Tywydd anffafriol i'r oen.
7. Heb rwymo telerau arbennig a therfynol ar rywun
10. Tua o amgylch.
12. Gwrhydri neu gamp.
14. Mewn cytgord yn cydweld.
15. Y pedwerydd arwydd yng nghylch y Sidydd.
16. Enw merch neu bont enwog
17. Partner y ditectif Gari Tryfan
19. Wrth ymyl, Gerwyn , Gerallt a Geraint yn fyr.

---

**Dyma'r trydydd pôs** i'ch diddori y mis hwn, sef cwblhau y Chwilair Mawr. Rhaid i bob llinell, colofn a blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1-9.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | 9 | |
| | | | 1 | | | | | 8 | 11 | | |
| | | | | 12 | | 5 | 11 | 4 | 1 | 2 | |
| | 1 | | | | 9 | 3 | 10 | | | | |
| | | 3 | | | 12 | | | | | 6 | 2 |
| | | | 8 | 11 | | | 4 | 12 | | 10 | 1 |
| | | 1 | 7 | | | | 8 | 3 | 2 | | 4 |
| | | 10 | 12 | | 5 | 4 | | | 9 | | 11 |
| | 11 | 2 | | | 3 | 9 | | | | 1 | 8 |
| | 5 | 8 | | | | 6 | 12 | | | 11 | 3 |
| 6 | | 12 | | 2 | 4 | | | 1 | 10 | | 5 |
| | | | | 8 | 10 | 1 | 5 | 7 | 6 | 12 | |

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'r tywydd wedi troi'n ddiweddar a'r Hydref yn bendant wedi cyrraedd! Er, mae'r croeso'n gynnes iawn i'r sawl sydd heb ymaelodi eto! Fe allwch ddod yn aelod yn rhwydd, drwy ddanfon siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach'.

Mae modd talu drwy'r system BACS hefyd a'r manylion sydd angen ar gyfer hwn yw'r côd didoli, sef 40-46-27....a rhif y cyfrif, sef 91020765.... lle mae angen cyfeirnod, rhowch eich enw chi fan hyn. Bydd enwau pawb a wnaiff ymaelodi erbyn diwedd y flwyddyn, yn cael eu cynnwys yn y Raffl Fawr, gyda chyfleoedd i ennill sawl gwobr ariannol!

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Medi:-

£30 - 249 - Gwyneth Jones, Pencraig Uchaf, Efailwen

£20 - 387 - Mair Collinge, 8 Banc Ostrey, San Clêr

Diolch am eich cefnogaeth i'r Clwb 200 ac i'r Cardi Bach.

Cadwch yn ddiogel,
Rhian.




**STROGANOFF PORC**

**CYNHWYSION**
750g/1¾ pwys ffiled porc Cymreig
2 lwy fwrdd o olew olewydd
2 lwy fwrdd o sudd lemwn
1 ewin garlleg, wedi'i falu
Halen a phupur du
25g/1 owns menyn
1 winwnsyn, wedi'i sleisio
125g/4 owns o fadarch
150ml/¼pt o stoc cyw iâr
150ml/¼pt o hufen dwbl

**DULL**
Torrwch y cig yn ddarnau tenau a'i adael i farinadu mewn powlen gyda'r olew, sudd lemwn, garlleg a sesnin am o leiaf 1 awr.
Toddwch y menyn a ffriwch y winwnsyn nes yn feddal.
Ychwanegwch y madarch a'u ffrio am ychydig funudau. Tynnwch o'r badell.
Tynnwch y porc o'r marinâd a'i goginio dros wres uchel nes ei fod wedi brownio'n ysgafn. Dychwelwch y cymysgedd madarch/winwnsyn i'r badell gyda stoc cyw iâr a hufen dwbl. Gorchuddiwch a mudferwch yn ysgafn am 10 munud nes ei fod yn dyner.
Addaswch y sesnin i flasu, yna ychwanegwch mwy o stoc os oes angen.
Gweinwch gyda reis wedi'i ferwi ac addurnwch â phersli.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed
Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# Y BLODYN OLA' *gan James Thurber*

Ym 1939, cyn i'r byd blymio i mewn i'r Ail Ryfel Byd, cyhoeddodd y digrifwr Americanaidd James Thurber, Y Blodyn Ola' - dameg mewn lluniau ar y thema rhyfel a heddwch. Gyda'r bom atom ar y gorwel a gyda gallu presennol dyn i ddinistrio'r byd, mae gwaith Thurber heddiw, chwe deg pedwar blynedd ar ôl ei farwolaeth, yn fwy perthnasol nag erioed ac yn arwain yn gryf tuag at ddiarfogi. Roedd y llyfr gwreiddiol a gyhoeddwyd gan Harper & Brothers, Efrog Newydd, yn ymroddedig i Rosemary (merch James Thurber) gyda'r ymroddiad "…yn y gobaith bydd ei byd yn well na'n i'n i."


Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) cyhoeddodd y fersiwn cryno hwn o lyfr James Thurber er mwyn hybu pobl i chwilio am y llyfr cyflawn.




1. Fel mae pawb yn gwybod, gwnaeth Rhyfel Byd XII difetha sifileiddio.




2. Diflannodd trefydd, dinasoedd a phentrefi o'r ddaear.




3. Dinistriwyd llwyni a choedwigoedd




4. A holl waith celf.




5. Cwympodd dynion, gwragedd a phlant yn is na'r anifeiliaid.




6. Yn ddigalon a dadrithiedig gwnaeth y cŵn adael ei meistri.




7. Oherwydd cyflwr ofnadwy hen lywodraethwyr y ddaear roedd hyd yn oed cwningod yn ymosod arnynt.




8. Aeth blynyddoedd a blynyddoedd heibio.




9. Tyfodd bechgyn a merched i edrych ar ei gilydd heb ddiddordeb oherwydd nid oedd cariad yn bodoli yn y byd.




10. Un dydd daeth merch ifanc ar draws y blodyn olaf yn y byd. Nid oedd wedi gweld un erioed.



11. Dywedodd wrth ei chyd-ddynion bod y blodyn olaf yn marw ond dim ond un dyn ifanc cymerodd





12. Gwnaeth y bachgen ifanc a'r ferch meithrin y blodyn a dechreuodd adfywio.





13. Cyn hir roedd dau flodyn, wedyn pedwar ac wedyn llond lle o flodau.


14. Tyfodd llwyni a choedwigoedd unwaith eto.






15. Dechreuodd pobl garu ei gilydd.



16. Nid oedd y cŵn yn alltud rhagor.



17. Ail adeiladwyd trefydd, dinasoedd a phentrefi.



18. Daeth cerddorion a jyglwyr 'nôl i'r byd.


19. Arlunwyr a beirdd.



20. A milwyr



21. A rhagor o filwyr.



22. Llosgwyd y rhyddhawyr a'r anniddigwyr.



23. Ac yn y diwedd roedd y byd yn rhyfela unwaith eto.


24. Y tro hwn roedd dinistr llwyr ...


25. ...a ddim byd ar ôl yn y byd.


26. Heb law un dyn.


27. Ac un menyw.


28. Ac un blodyn

Fersiwn cryno Y BLODYN OLA' - dameg mewn lluniau gan James Thurber.
Hawlfraint © 1939 gan James Thurber, adnewyddiad 1967 gan Rosemary Thurber.
Wedi'i ail argraffu trwy drefniant gyda Rosemary A. Thurber ac Asiantaeth Barbara Hogenson.
Cedwir pob hawl. (Cyfieithwyd o'r Saesneg gwreiddiol gan Anna Williams).

Ifan Phillips 07788 424559
REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau
cyhyredinol sy'n gysylltiedig â
chwaraeon a gwaith

Blodau
Ar gyfer achlysuron arbennig

Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygwyn ar Daf.
SA34 0RE.
Ffôn: 01994 240 350
Symudol: 07977 553796
Ebost: meryljames534@btinternet.com

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

# ADOLYGIAD O LYFR LEFI GIBWN

*gan Rhiannon Ifans*

Ym mis Mehefin eleni, cyhoeddwyd cyfrol a fydd o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr Y Cardi Bach. Cyfrol yw hon sy'n adrodd hanes Lefi Gibwn (1806–70), baledwr o ardal Cwmfelin Mynach a Blaen-waun. Fe'i lluniwyd gan D. Roy Saer, brodor o Hermon ac un o ddisgynyddion y baledwr. Cynorthwywyd Roy i gwblhau'r gyfrol gan Rhiannon Ifans, un a fu'n gynfyfyriwr i Roy, ddyddiau a fu!
Dyn dall oedd Lefi Gibwn. Aeth yn dywyll pan oedd yn bump ar hugain oed. Mynn rhai mai effaith calch oedd y dallineb, tra dywed eraill iddo fynd yn dywyll wedi iddo chwythu cornet bob cam o'r ffordd o'r Drover's Arms, Cwmfelin Mynach i'r Lamb, Blaen-waun. I gynnal ei hun a'i deulu, fe ddechreuodd Lefi lunio baledi a thonau, eu canu mewn ffeiriau cyfagos, a gwerthu copïau printiedig ohonynt. Byddai'n canu mewn ffeiriau o fewn y triongl Aberteifi, Caerfyrddin a Hwlffordd, a châi ei arwain yno gan un o'i ferched. Yn ogystal â chanu, byddai'n cyfeilio iddo'i hun ar y ffidil.
Lluniodd tua dau gant o faledi i gyd, ac mae rhyw hanner cant ohonynt yn dal ar glawr heddiw. Detholwyd ugain o'r rheini ar gyfer eu cynnwys yn y gyfrol hon. Mae'r pynciau'n amrywio o ran cynnwys: terfysg Beca, rasys ceffylau Caerfyrddin, canmol cŵn hela teulu Poweliaid Maes-gwyn, helyntion caru, hanes dyfodiad y rheilffordd i orllewin Cymru, ambell drychineb ddiwydiannol, a phlâu fel y Colera yn 1848–9. Canodd faledi dwysach yn ystod ei flynyddoedd olaf, yn dilyn dylanwad Diwygiadau 1848 ac 1859 arno.

Cyfnod o dlodi oedd hi ar y cyfan i drigolion yr ardal, a cheir sôn am golledion wrth dyfu tatws a dinistr llifogydd yng Nghwmfelin Mynach pan ysgubwyd cartrefi cyfan i ffwrdd gyda'r lli. Does ryfedd i Lefi a'i deulu dreulio cyfnod byr yn nhloty Caerfyrddin.
Roedd Theophilus, brawd Lefi Gibwn, yn gofalu am geffylau 'Sgweier Bach Maes-gwyn', a chafodd ei ladd gan geffyl tra oedd wrth ei orchwyl. Cymaint oedd gwerthfawrogiad y Sgweier Powell ohono, fel y talodd am garreg goffa sylweddol iddo, a chafodd ei gladdu yn nesaf at feddrod y Poweliaid ym mynwent Eglwys Brynach Sant, Llanboidy. Am Lefi, bedd dyn cyffredin a gafodd ef, ond fe'i cofir yn deilwng yn y gyfrol hon.

Teitl y gyfrol yw Lefi Gibwn: Baled, Llaish a Ffidil. Fe'i cyhoeddir gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Mae hi'n 352 tudalen o hyd, ei phris yn £11.95, ac mae hi ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg. Bargen!



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Beca

Croesawodd Angharad bawb i gyfarfod cyntaf y tymor ym mis Medi. Gwnaethom edrych a thrafod rhai o faterion y Mudiad, cyn croesawu y brawd Owen Powell i'r cyfarfod i roi tipyn o'i hanes i ni.
Yr ydym yn ei gofio fel aelod o'r grwp Catatonia. Mae erbyn hyn yn byw yn Efailwen ac yn mwynhau. Ond yn Lloegr y treuliodd ei ddyddiau cynnar. Saesneg oedd ei iaith yn y dyddiau hynny. Ond, fe wnaeth y teulu symud i Gaerdydd, a mynychodd Owen ysgol Gymraeg a dod yn Gymro Cymraeg ei iaith. Mae yn byw ym myd y miwsig. Mwynhaywyd prynhawn yn ei gwmni a diolch iddo am roi o'i amser.

Eto, gwnaeth Angharad groesawu pawb i gyfarfod mis Hydref. Roedd hi'n fraint croesawu Mary atom a hithau'n dod yn aelod o'r Mudiad am y tro cynta.
Edrychwyd yn gyntaf ar faterion y Mudiad, cyn croesawu Heather Tomos atom i'r cyfarfod.
Sôn wnaeth Heather am yr ifaciwis a ddaeth i blith pobol pentre Llandudoch yn ystod y rhyfel byd. Erbyn hyn mae'r amser wedi mynd heibio, a prin yw'r atgofion. Diolchwyd iddi am hanesion
diddorol iawn ac fe mwynhawyd paned a chacen yn ei chwmni wedyn.

Gillian Gibby, a Mefin Lewis wnaeth ennill raffl y ddau mis.

Yn ystod y mis a aeth heibio bu pedair aelod yn ymweld a changen Tegryn a mwynhau y croeso yn fawr.
Hefyd gwnaeth naw aelod uno gyda Merched y Wawr y Sir mewn cyfarfod yng
Nghaffi Beca, Efailwen. Noson wrth ein bodd eto.

Edrych ymlaen yn awr i'r cyfarfod ym mis Tachwedd, pan fydd Nia Davies yn dangos sut mae yn mynd ati i addurno torch Nadolig.

## Clwb Gwawr Merched Hywel

Yn ein noson cyntaf o'r tymor, cafodd Clwb Gwawr Merched Hywel noson hynod ddiddorol yng nghwmni Ruth Kenny, maethegydd natur-iachaol a therapydd holistig a oedd yn sôn am fwyta'n iach, cadw'n heini a balans bywyd.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb i ymuno â'n clwb gwawr ni, croeso i chi gysylltu ar ebost at delythroblin@outlook.com

Ni'n cwrdd ar nos Fercher ola'r mis yn Hendygwyn ar Daf.

*Merched y Wawr Cangen Gronw*
Festri Ramoth, Cwmfelin Mynach
Bore Iau, Tachwedd 20fed, 2025
am 11 o'r gloch

**Bore Coffi, Raffl**

**a Stondin gacennau**
Agorir gan
y Parch. Beti Wyn James
***Elw i Eisteddfod Genedlaethol***
***y Garreg Las 2026***
*Croeso cynnes i bawb*

## Merched Y Wawr Cangen Gronw

Dathlodd sawl aelod benblwydd arbennig yn y ddau fis diwethaf ac rydym am ddymuno pob hwyl iddynt ac iechyd da i'r dyfodol.
Mae rhaglen y tymor newydd wedi ei threfnu, ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu Mike Thomas i'n diddori ar brynhawn dydd Iau, 23ain Hydref am 1.30 o'r gloch. Rydym yn cwrdd yn Festri Ramoth, Cwmfelin Mynach. Cofiwch bod croeso i aelodau newydd.
Ym mis Tachwedd byddwn yn cynnal bore coffi am 11 o'r gloch ar ddydd Iau, Tachwedd 20fed. (gweler y poster). Hon bydd ein hymdrech i godi arian tuag at Eisteddfod Y Garreg Las 2026. Bydd yn hyfryd cael cefnogaeth yr ardal; cewch groeso arbennig.

## Cangen San Clêr

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Picton-Davies, Eglwyswrw, ar eu hurddo yn Lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr yn Eisteddfod Wrecsam. Mae Bethan yn enedigol o San Cler, wedi ei magu ar fferm Asgood, a mae ei mam, Joan, yn aelod ffyddlon o gangen San Clêr. Rydym ni yn y gangen yn prowd iawn o Bethan ac yn dymuno'n dda iddi am ddwy flynedd ei llywyddiaeth.

Hefyd, mae Beti-Wyn wedi ei henwebu yn Is-ysgrifennydd Cenedlaethol am y ddwy flynedd nesaf. Bu Bethan a Beti-Wyn yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Glasfryn (er nifer o flynyddoedd ar wahan!). Tybed a oes unrhyw ysgol gynradd arall gyda dwy o swyddogion Cenedlaethol Merched y Wawr wedi eu haddysgu yno.



**Bethan a Beti**

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Medi gan Eileen. Roedd 16 yn bresennol. Dymunwyd yn dda i Rhian a Heulwen. Llongyfarchwyd Lilwen ar ennill y gystadleuaeth trefnu blodau yn y Sioe Fawr a dod yn drydydd. Y thema oedd Llwybr i'r Gofod.



Llongyfarchwyd Marian (a Rhodri) ar ddathlu eu Priodas Aur.

**Cofnodion**

Darllenwyd crynodeb o gofnodion cyfarfodydd Ebrill a Mai.

Diolchwyd i Olive am ginio hyfryd ar Orffennaf 15fed i ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed . Roedd pawb wedi mwynhau.

Cafwyd hanes y Penwythnos Preswyl a gynhaliwyd yng Nghaerdydd eleni ar ddechrau Medi. Roedd Lilwen, Beti-Wyn a Iona wedi mynychu. Roedd nifer o sesiynau difyr wedi eu trefnu a mwynhawyd a dysgwyd llawer wrth wrando ar y gwahanol siaradwyr. Treuliwyd y dydd Sadwrn yn Sain Ffagan lle cafwyd cyfle i wrando ar siaradwyr neu grwydro'r amgueddfa. Diddorol iawn oedd gwrando ar Catrin Stevens yn son am gyflawniadau merched o Gymru yn y byd chwaraeon dros y blynyddoedd a'r diffyg sylw a roed iddyn nhw. Fe fu pleidleisio ar blac porffor i'w gosod i gofio am un; diddorol gweld yn y papur mai i gofio Irene Steer a enillodd Fedal Aur yn y Gêmau Olympaidd yn Stockholm yn 1912 fydd y cyntaf. Roedd swper nos Wener yng Ngwesty'r Radisson Blue gydag adloniant yn dilyn gan Fechgyn Bro Tâf.

Yng Ngwesty'r Village oedd swper nos Sadwrn ac yna mwynhawyd noson yng nghwmni 'r gantores Jessica Robinson a chafwyd hanes mewn cymeriad gan Eleri Twynog. Cafwyd bwyd blasus a chwmni difyr a mwynhawyd y penwythnos.

Roedd gweddill y noson dan ofal Lilwen a chafwyd tipyn o hwyl yn chwarae gêm Gyrfa Chwilen. Nia oedd yn fuddugol ar ddiwedd y noson.

Mwynhawyd paned wedi ei baratoi gan Eirwen, Doreen a Janet. Rhoddwyd y wobr raffl gan Pat ac fe'i henillwyd gan Rita.

**Cangen Hendygwyn ar Daf**

Dechreuon ni'n tymor eleni mewn steil drwy fynd mas i gael te prynhawn ym Mecws Bets ym Maenhir, Login. Er bod y tywydd yn ddiflas, cawsom groeso bendigedig a braf oedd gweld ein gilydd unwaith yn rhagor ar ol gwyliau'r haf.

Braf hefyd oedd cael cwmni Christian Donovan a'i gweld wedi gwella'n iawn ar ol cwympo yn ystod y penwythnos preswyl yng Nghaerdydd ac I glywed bod Jean Parri Roberts wedi cael dod nol o'r ysbyty yng Nghaerdydd i Glangwili a'i bod yn gwella ar ol cael clun newydd.

Ar ol derbyn llythyr oddiwrth bwyllgor apel Eisteddfod y Garreg Las yn Hendygwyn, cynigiodd Margarette wneud Nofio Noddedig yn Llety Cynin i godi arian ac fe gytunodd aelodau'r gangen ei noddi. Disgwylir i Hendygwyn i godi £8000 i gyd.

Diolchwyd yn gynnes iawn i staff Becws Bets am y wledd arbennig ac atgoffwyd y gangen taw Bethan Picton Davies fydd ein gwraig wadd ni yn ein cyfarfod ar Hydref 21ain am 3.30 yng Nghanolfan Hywel Dda.



# BANCYFELIN

**Taith Flynyddol Sefydliad y Merched Bancyfelin**
Ar ddydd Sadwrn,13eg o Fedi, teithiodd aelodau Sefydliad y Merched Bancyfelin ar drip pleserus i Ddinbych-y-Pysgod. Teithiwyd ar y trên, gan fwynhau'r golygfeydd hardd ar hyd y ffordd. Ar ôl cyrraedd, bu pawb yn cael paned o goffi yng Ngwesty'r Imperial cyn mynd am dro i weld y môr a thrwy siopau prysur y dref.

Wedi hynny, mwynhawyd cinio blasus gyda'n gilydd mewn awyrgylch gyfeillgar a llawn chwerthin. Wedi diwrnod bendigedig o gwmni da a haul ar y môr, dychwelodd pawb adref ar y trên, yn falch ac yn ddiolchgar am ddiwrnod llwyddiannus arall gyda'r Sefydliad.



**Henoed Bancyfelin**
Ym mis Medi, braf oedd cael ail-ddechrau cyfarfodydd Henoed Bancyfelin ar ôl toriad dros fisoedd yr haf. Diolch i John Hancock, am gadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd Annalyn.

Y siaradwyr gwadd oedd Rebecca ac Alan, Swyddogion Diogelu Twyll Heddlu Dyfed Powys. Cafwyd prynhawn diddorol gyda gwybodaeth holl bwysig yn cael ei rannu am sut i fod yn ddiogel ar-lein, adnabod scams ar ein ffonau symudol, e-byst ac ati. Rhybuddiwyd na ddylid byth roi manylion banc i neb. Ni fyddai unrhywun dilys yn gofyn am y wybodaeth hyn.

Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ar ddiwedd y sesiwn. Mwynhawyd y prynhawn ac roedd yn gyfle i ddysgu llawer am ddiogelwch ar lein.



**Rebecca ac Alan**

**Y Men's Shed ( Sanclêr Shed)**

Yn ystod wythnosau'r haf, bu dynion y Sanclêr Shed wrthi'n ddyfal yn creu paneli newydd i'w rhoi ar ffens yr ysgol.

Mae'r rhai newydd yn werth i'w gweld. Roedd y plant yn gyffrous i'w gweld a'r staff a'r rhieni yn ddiolchgar dros ben. Maent yn ychwanegiad lliwgar i ardal yr ysgol.

Diolch i'r dynion am eu llafur a'i dyfeisgarwch i'w ailgreu. Crefftwyr heb eu hail.




**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
*Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.*
*Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.*
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

**Capel Cana**

Roedd yr oedfa yng Nghapel Cana, Bancyfelin, Sir Gar yn un cofiadwy iawn. Bedyddiwyd 6 o blant yr eglwys gan ein gweinidog, y Parchg Beti Wyn James. Mae teulu Cana yn un clos a chynnes a llawenydd mawr oedd cynnal yr oedfa fedydd hon, gan bod y chwe phlentyn yn aelodau ffyddlon yn yr Ysgol Sul, a'r rhieni yn rhan o gymdeithas yr eglwys. Dymunwn fendith Duw arnynt a diolchwn am brynhawn llawen a chofiadwy.



Cynhaliwyd cyrddau diolchgarwch ardderchog yng Nghana eleni. Cawsom oedfa bregethu hyfryd dan arweiniad Sion Page gyda swper blasus i ddilyn. Yna cymerwyd rhan yn yr oedfa deulu o Ddiolchgrawch gan blant a rhieni'r eglwys a chafwyd llawer o hwyl yn olrhain y Weddi Ffa Jeli gyda'n gweinidog, y Parchg Beti-Wyn. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i oedfaon yr Wyl ac am y casgliad hael i Fanc Bwyd Caerfyrddin.





Aelodau Cana a Bancyfelin ynghyd a chyfeillion yr ofalaeth yn mwynhau eu cinio dydd Sul blynyddol a drefnwyd gan aelodau Cana yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg. Bwyd da a chwmni llon.

**Prosiect Bwyd Sir Gar**

Cafodd rhai o aelodau Capeli Cana a Bancyfelin a'u ffrindiau gyfle i ymweld a fferm Brymenda Isaf, Llanarthne yn ddiweddar dan arweiniad un o aelodau Cana, Lowri Siôn sy'n gweithio fel cydlynydd prosiect Bwyd Sir Gar. Roedd gweld y 'poly-tunnels' yn llawn llysiau a blodau yn ddigon o ryfeddod. Ar ôl crwydo o amgylch y fferm a mwynhau paned cynnes yn y beudy, cawsom gyfle i ymarfer ein sgiliau crefft drwy greu addurniadau o glai gan ddefnyddio patrymau'r blodau. Cawsom gyfle hefyd i rannu ein hatgofion am fwydydd. Diolch i Lowri Siôn am drefnu ac i Lowri Johnson am ei sgwrs ddiddorol. Prynhawn difyr iawn yn wir.



RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

**Gibeon, Bancyfelin**

Cydymdeimlwn â Meirion a Margaret Williams ar farwolaeth eu brawd yng nghyfraith, Wynne Davies o Gastell Newydd Emlyn.

Llongyfarchiadau i Sian a Wayne, Nantgaredig, ar enedigaeth mab bach ar Fedi 29ain, Tomos Wyn. Llongyfarchiadau hefyd i Susan Davies ar ddod yn famgu.

Llongyfarchiadau mawr i Meirion Williams, Lower Court ar ei benodi'n Llywydd Cymdeithas Gwartheg Holstein De Cymru. Fe gynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Gymdeithas ym Methlehem Newydd ar nos Wener, Hydref 31ain am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Hyfryd oedd clywed fod Thomas McCall wedi ei ethol yn ddiacon yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Mae Thomas yn un o blant Ysgol Sul Gibeon ac ymfalchiwn yn y newyddion. Byddai mamgu (Tegwen Evans, Bradford House) wedi bod yn prowd iawn.

## LLANDYSILIO

**Penblwydd**

Penblwydd hapus yn 21 oed i Georgina Luke ar Hydref 29ain.



**Penblwydd Priodas**

Llongyfarchiadau i Adrian a Barbara Llewellyn ar ddathlu eu priodas Ruddem yn ddiweddar.

**Ymddeoliad**

Dymuniadau da a phob lwc i Carolyn Jenkins ar ol ymddeol fel arbenigwr ystad gyda'r Grid Cenedlaethol, ar ol 38 blynedd o wasanaeth.

**Hanner Marathon Caerdydd**

Llongyfarchiadau i deulu Dugmore, sef Iris, Iwan, Tomos, Angharad (ei sboner Ainaras) a Rob (sboner Sioned) ar gwblhau hanner marathon Caerdydd ar Hydref 5ed. Da iawn wir, ac i unrhyw un arall wnaeth gymryd rhan.



**Apêl Llandysilio a Clunderwen Eisteddfod Y Garreg Las**

Cynhaliwyd noson Bingo lwyddiannus iawn yn Neuadd Clunderwen ar nos Sadwrn, Medi 27ain lle codwyd £860 ar gyfer Apêl Eisteddfod y Garreg Las. Derbyniwyd gwobrau a rhoddion hael iawn ar gyfer llwyddiant y noson a diolchwn i bawb wnaeth gyfrannu rhain ac hefyd i'r bobl wnaeth gefnogi'r noson yn y Neuadd. Yn Llandysilio wythnos yn ddiweddarach, ac yn ystod Storom Amy, buodd pobl o'r ddwy gymuned ddigon dewr i fynychu Bore Coffi. Y cyfanswm derbyniwyd oedd £250 ac mae hwn yn cael ei rannu rhwng Apêl yr Eisteddfod a Neuadd Pentref Llandysilio.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth.

BELLISSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau
tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

# EFAILWEN

Llongyfarchiadau i Meinir ac Iwan Jenkins ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.
Hefyd dymunwn wellhad buan i mam Meinir, sef Beryl George sydd yn Ysbyty Llwyn Helyg yn disgwyl symud i gartre gofal.

Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau yma am gyflawni Ironman Cymru 2025 yn Ninbych y Pysgod, sef Huw Rees o Coynant a Gwyndaf Lewis gynt o Bro Beca.



Gwyndaf Lewis


Huw Rees

Hefyd i Gwyndaf, Rhodri a Ffion am redeg hanner marathon Caerdydd i godi arian at Ymchwil Cancr Cymru.




Cododd Gwyndaf £2556 rhwng popeth dros y flwyddyn a coddodd Rhodri a Ffion £700 wrth rhedeg yr Hanner Marathon. £3256 rhwng y tri ohonynt tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

**Cyngerdd Pwyllgor Apêl Efailwen a'r cyffiniau**
Ar noson hydrefol ganol mis Medi fe lenwodd y gymuned Caffi Beca er mwyn mwynhau gwledd o adloniant lleol. Cafwyd noson fendigedig yng nghwmni talent anhygoel ein hardal. Roedd llu o eitemau wedi eu paratoi gan Ysgol Beca, Côr Corlan, Caleb Nicholas, Sioned Llewelyn-Jones, Begw Fussell a triawd offerynnol arbennig, Claire Jones, Chris Marshall a'u merch Cadi. Fe lywiwyd y noson yn feistrolgar gan Alun Griffiths, gyda chyfeilio neilltuol Ceirios Jenner yn gefnlen perffaith i bob eitem.

Hoffwn ddiolch o galon i'r holl artistiaid am roi eu hamser, Robert a Delyth Caffi Beca am eu haelioni, a'r Pwyllgor Apêl am eu gwaith caled.

Ymlaen at y digwyddiad nesa! Noson garolau yng Nghapel Nebo dan arweiniad John S Davies ar ddydd Sul 30ain o Dachwedd am 6y.h.





Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan*
*Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474



Alun Griffiths yn ei hwylie.



Sioned a Begw yn diddanu'r gynyllidfa.

**Diwrnod elusennol "In it with Isaac"**

Hoffai Simon, Sian, Isaac ac Elliot ddiolch yn ddiffuant i bawb, nid yn unig am gefnogi'r diwrnod elusennol, ond hefyd am eu cefnogaeth iddynt fel teulu dros y flwyddyn diwethaf. Maent fel teulu dal methu credu'r holl gefnogaeth a'r caredigrwydd maent wedi ei derbyn, ond yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn. Mae wedi bod yn amser caled, ond mae Isaac yn dal i wella ac yn gweithio'n galed ar y physiotherapy erbyn hyn. Mae Isaac yn edrych ymlaen i fynd i wylio Lerpwl yn chwarae ar Tachwedd 1af ac yn gobeitho am fuddugoliaeth i'r tim.

Gwelir isod fwy o luniau o'r diwrnod elusennol gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Crymych ar ddiwedd mis Awst.




Teulu estynedig Brynhyfryd




Aelodau'r pwyllgor a drefnodd y gem




**Simon, Sian, Isaac ac Elliot gyda Nigel Owens, dyfarnwr y gem.**

**Cinio Blynyddol Hoelion Wyth Beca**

Dechreuwyd ein tymor drwy gael ein cinio blynyddol yn y Caffi Beca newydd. Croesawyd ni yno gan ein Cadeirydd Eifion Evans, a chyflwynodd ein siaradwraig wadd sef Aelod Seneddol Plaid Cymru ardal sir Gâr, Ann Davies.

Magwyd hi ar fferm fach yn ardal Llanarthne ac ar ôl gwneud ei harholiadau TGAU a gorffen yr ysgol, cafodd gymhwyster diploma mewn cerddoriaeth, a bu'n athrawes beripatetig cerdd am sawl blwyddyn. Priododd â ffermwr pan oedd yn ei hugeiniau cynnar ac mae ganddynt dair o ferched. Ar ôl dysgu cerddoriaeth mewn sawl ysgol, daeth cais iddi ymgeisio am sedd ar Gyngor Sir Gâr. Cafodd ei chyfethol y tro cyntaf ac enillodd etholiad yr ail dro. Bu'n aelod o'r cabinet a oedd yn ymdrin â materion gwledig, cydlyniant cymunedol a pholisi cynllunio. Yn ystod ei chyfnod fel Cynghorydd Sir penderfynodd wneud gradd mewn addysg gynnar Yng Ngholeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Graddiodd hi ac un o'i merched yr un pryd.

Yn ystod 2023, ar ôl ychydig o anogaeth, penderfynodd sefyll i fod yn aelod seneddol dros yr ardal etholiad newydd ar gyfer 2024. Dechreuodd ei hymgyrch yn Ionawr 2024 heb wybod bydda'r etholiad yn cael ei alw ym mis Mai. Yn y cyfnod byr hwn gwnaeth ymdrech dda i ymweld â chymaint o gartrefi â phosib. Bu'r ymdrech yn llwyddiannus gydag Ann yn derbyn 34% o'r pleidleisiau. Cyn gorffen, pwysleisiodd ei bod yn barod i weithio'n galed ar ran holl bobol yr etholaeth.

Diolchwyd iddi am ei chyflwyniad diddorol a hefyd i Robert a staff y caffi am y lluniaeth a'r croeso.




**Eifion Evans, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis yng nghwmni'r siaradwraig wadd sef Ann Davies A.S Sir Gaerfyrddin.**

# HENDYGWYN AR DAF

**Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y gangen ar Hydref 2il yng Ngwesty'r Taf. Croesawyd pawb gan y cadeirydd Claude James. Danfonodd ein dymuniadau gorau i Wyn a Meirwen, gan obeithio y bydd ei mab Dafydd yn gwella yn fuan, a hefyd i Ithel Parri-Roberts ar ol i Jean gael damwain yn ddiweddar, ond bod erbyn hyn yn gwella.

Yna estynnwyd croeso i'r siaradwr gwadd sef Mr Haydn Lloyd, Ffynnon Lwyd, Llangynin. Cyflwynodd Haydn ei hanes inni dros degawdau ei fywyd. Cafodd ei eni ar fferm yn ardal Wrecsam. Yn ifanc roedd yn mwynhau canu ac yn cystadlu yn eisteddfodau yn yr ardal ac yn cael tipyn o lwyddiant. Pan ddaeth yn amser i fynd i'r ysgol Uwchradd, yn lle mynd i'r ysgol agosaf, roedd ei fam eisiau iddo fynd i Ysgol Maes Garmon, lle roedd Aled Lloyd Davies yn brifathro. O dan ei ddylanwad, daliodd ymlaen i ganu gan ennill cystadleuaeth talent Gogledd Cymru.
Ar ol llwyddo yn ei arholiadau yn yr ysgol, penderfynodd fynd i Brifysgol Reading i astudio Economeg Amaethyddiaeth. Yn ystod ei ail flwyddyn yn y coleg, treuliodd dri mis ar fferm 10,000 erw yn Nebrasca yn Yr Unol Daleithiau a oedd yn dipyn o brofiad.

Ar ol graddio o'r coleg doedd ddim yn siwr pa gyfeiriad i fynd, ond yn y diwedd derbyniodd swydd gyda cwmni Dalgetty yn felin Trefyclo. Ar ol dwy flynedd, symud i'r felin yng Nghaerfyrddin. Yn y cyfnod yma ymunodd a Cor Meibion Caerfyrddin ac erbyn hyn ef yw cadeirydd y cor. Hefyd amser yma cwrddodd ac Eleri a priododd y ddau yn 1994. Symudodd y ddau i fyw yn Ffynnon Lwyd, fferm rhieni Eleri, gan gymryd dros y fferm a penderfynu sefydlu buches odro. Dros amser, ganwyd dau fab sef Llyr a Rhodri.

Daeth yn rheolwr y felin ond yna symud i fod yn reolwr ar fusnes Elm Dairy. O fewn blwyddyn ar ol ymuno, aeth y busnes i'r wal a collodd ei swydd ac hefyd llawer o arian am na gafodd ei dalu am laeth oedd wedi gwerthu i'r ffatri.

Digwydd cwrdd yn fuan wedyn a perchennog Cwmni All Pumps oedd yn edrych i werthu y busnes. Er bod arian yn brin, penderfynu prynu'r busnes. Tyfodd y busnes dros amser ac mae nawr yn fusnes llewyrchus iawn yn dod o hyd i ddwr i ffermydd ac eraill.

Siglwyd y teulu yn fuan wedyn pan gafodd Eleri wybod bod ganddi cancr y fron. Cafodd nifer o driniaethau dros gyfnod o amser, gan frwydro'n galed i wella.

O'r diwedd cafodd y newyddion bod y cancr wedi mynd. Yn 2014 cafodd ei gwobrwyo fel Gwraig Fferm y flwyddyn dros Gymru yn y sioe fawr yn Llanelwedd. Ond yn fuan ar ol y newyddion da yma, cafodd wybod bod y cancr wedi dod yn ol. Er brwydro'n ddewr eto, bu farw Eleri yn 2015. Roedd hyn yn amser caled iawn i'r teulu.

Erbyn hyn mae bywyd wedi symud ymlaen. Mae Cwmni All pumps yn cadw Haydn yn brysur ac mae ganddo bartner newydd sef Sian a oedd yn nyrs yn Aberystwyth. Mae Llyr wedi cymryd gofal o'r fferm ac mae Rhodri a fferm yn Sir Benfro.

Diolchodd y cadeirydd i Haydn am ddod atom a dymunodd yn dda iddo ef a'r teulu i'r dyfodol. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Taf ar Nos Iau, Tachwedd 6ed a mae croeso i aelodau newydd i ymuno a ni i fwynhau noson o gymdeithasu yn y Gymraeg.

**CLWB CANT HYWEL DDA**

**ENILLWYR MIS HYDREF**

Gilbert Williams - £100
Davies Builders - £50
Wyn a Meirwen Evans - £40
Pat Price - £20

**Pwysig**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach brynhawn Sul, Tachwedd 2il am 4 o'r gloch yng Nghanolfan Hywel Dda. Mae'n gyfarfod pwysig a gofynnir yn garedig am bresenoldeb gohebwyr ac unrhyw un â diddordeb yn nyfodol y papur. Bydd angen gwirfoddolwyr i helpu dosbarthu a chasglu hysbysebion Nadolig.



the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook






RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR


Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

**Capel y Tabernacl, Hendygwyn ar Daf**

Cynhaliwyd oedfa Ddiolchgarwch y plant a'r ieuenctid ddiwedd Medi a chafwyd oedfa hyfryd ganddynt. Thema'r oedfa oedd 'Diolch' yn fwyaf am fwyd ac Iesu yn porthu'r 5,000. Cafwyd cyfraniadau graenus gan y plant a'r ieuenctid. Cyflwynodd Mr Trefor Evans stori bwrpasol ac fe gawsant hwythau gyfle i gyfrannu. Diolch i bawb am oedfa gofiadwy a bendithiol.

Mae Clwb Hwyl y Tabernacl yn mynd o nerth i nerth ac yn cwrdd bob prynhawn dydd Gwener rhwng 3.30 a 4.30 a chroeso cynnes i bawb.



**Plant a'r Ieuenctid Tabernacl**

**Cymdeithas Ddiwylliannol Capel y Tabernacl Hendygwyn**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeitha Ddiwylliannol ar brynhawn ddydd Mawrth, Hydref 7fed yn y festri. Croesawyd bawb yn gynnes gan ein cadeirydd, Meurig James. Yn dilyn gair o weddi gan y Cadeirydd, darlleniad gan Elizabeth Whita a phennill o'r emyn "Iesu, Iesu rwyt ti'n ddigon", croesawyd Mr Eifion Nicholas, neu Ted fel yr adnabyddir i nifer, i'n plith. Yn enedigol o Henllan Amgoed, mae erbyn hyn yn byw ym mhentref Pentlepoir. Yn briod â Menna, mae ganddo ddwy ferch sef Sian ac Emma. Testun ei araith oedd Taith, a bu'n olrain ei daith bywyd, o'i blentyndod yn Henllan, hyd at ei yrfa hir gyda'r heddlu, gan ffocysu ar ei waith gyda'r CID ac yn bennaf gyda'r adran gyffuriau. Bu'n aelod allweddol o ymgyrch Operation Julie, pan darganfuwyd a chwalwyd un o weithrediadau cynhyrchu y cyffur LSD fwyaf yn y byd yng nghanol y saithdegau. Cafwyd brynhawn difyr a diddorol iawn yn ei gwmni cyn cael paned a lluniaeth ysgafn i ddiweddu'r prynhawn. Rhoddwyd y diolchiadau gan Trefor Evans am yr anerchiad ac Ann Glanville am y lluniaeth.




**Cymdeithas Ddiwylliannol Ted Nicholas**

Ar gais Ysgol Llys Hywel, Hendygwyn ar Daf, fe greuodd dynion Shed Sanclêr Gegin Fwd i'r ysgol. Fe gafodd dderbyniad da gan ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2.

Aelodau o'r Shed Sanclêr oedd yn bresennol ond nid ydynt yn y llun - Lawrence May, Chris Crollman, Anthony Jones, Paul Glover ( a Teddy ei gi cymorth) a Steve Cox.

Diolch iddynt i gyd am eu gwaith ac am eu hymroddiad wrth gefnogi'r ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae'r 'Men Shed' yn sefydliad cenedlaethol gyda chlybiau mewn nifer o drefi. Maent wedi'u sefydlu er mwyn cynnig cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant dynion yn yr ardal.

Mae manylion pellach am sut i ddod o hyd i'ch sied lleol ar y wefan- htttps:// www.mensshedcymru.co.uk

Yn y llun gwelir athrawes dosbarth Manon Cornish yn ei derbyn ar ran yr ysgol.



## HENLLANFALLTEG



Yn ddiweddar derbyniodd Gethin ac Eleri Gibbin, Fferm Drefach, Henllan Amgoed gwobr 'Effeithiolrwydd uchel o fwydo' gan "British Dairying" yng ngwobrau "The Cream Awards".
Adroddwyd gan y beirniad bod y fferm laeth sy'n lloia yn yr hydref wedi rhoi argraff dda ac yn dangos bod llygaid am fanylder drwy'r holl broses cynaeafu, yn enwedig gyda'i defnydd effeithiol o adnoddau ar blatfform pori, porthiant o ansawdd ffantastig a ffigyrau ffrwythlondeb arbennig yn y gwartheg.

Llongyfarchiadau mawr iddynt am flynyddoedd o waith caled a'i ymroddiad i wella safonau amaethu.

**Cyrddau Blynyddol Capel Henllan**
Dydd Sul, 2il Tachwedd am 10.30 y bore
Parchedig Aled Gwyn

Dydd Sul, 16eg Tachwedd 10.30 y bore
Parchedig Ken Thomas

## LLANGYNIN

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Michael Morris, Blaenffynhonnau, sydd wedi derbyn llawdriniaeth i osod clun newydd ar ddiwedd mis Awst.

**Cartref Newydd**
Pob dymuniad da i Hywel ac Ann Morris sydd wedi symud i fyw i Bwll-trap. Pob lwc a phob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

**Priodas Aur**
Pob dymuniad da i Rhodri a Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, a oedd yn dathlu eu Priodas Aur ar Fedi'r 20fed. Llongyfarchiadau mawr iddynt wrth ddathlu hanner canrif o fywyd priodasol.

**Capel y Bryn**
Ddydd Sul, Medi'r 28ain, bu aelodau Capel y Bryn a ffrindiau yn mwynhau pryd o fwyd blasus iawn yn Nhafarn y Sporting Chance ym mhentref Rhos-goch. Roedd yn gyfle i aelodau a chyfeillion y Capel ddod at ei gilydd, rhannu pryd o fwyd a mwynhau cwmni ei gilydd.

Diolch i Chloe a Hicham El Khalfi am eu croeso twymgalon ac am ginio dydd Sul bendigedig!

**Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn**
Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn am 2 o'r gloch brynhawn Ddydd Sul, Hydref 26ain, pan ddisgwylir Mr Sion Page i bregethu. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ysbyty Glangwili a bydd cwpaned o de neu goffi a lluniaeth ysgafn i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

**Bingo'r Bryn**
Bydd Pwyllgor Neuadd y Bryn yn cynnal Bingo yn y neuadd nos Iau, Tachwedd 20fed. Bydd y drysau ar agor am 7.00 o'r gloch a'r gêm gyntaf yn dechrau am 7.30. Croeso cynnes i bawb.









**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Glenmarie Lewis, Talar Las, ar ddod yn hen famgu unwaith eto ar enedigaeth Moli Jên Rees, merch fach Catrin a Shôn a chwaer fach newydd i Ani Elen Rees o Grymych.

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau i'r canlynol sy'n dathlu pen blwyddi arbennig ym mis Hydref:

Caleb Davies, Awel-y-Bryn, yn 2 oed ar Hydref 9fed.
Llinos Thomas, Carreglwyd, yn 70 oed ar Hydref 13eg,
Rhian White a Mark White, Garnwen, y ddau ohonynt yn 65 oed ...Rhian ar Hydref 19eg a Mark ar y 26ain.
Lynda Thomas, Pantglas, Llangynin sy'n 80 oed ar Hydref 10fed

Pen blwydd hapus iawn iddynt i gyd.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Gymraeg Llangynin yn y Bryn nos Fercher, Hydref 8fed. Cafwyd gair o groeso gan y cadeirydd eleni, Dylan John, cyn iddo drosglwyddo'r awennau i'r siaradwraig wadd Jiwli Higginson, cyn-bennaeth Ysgol y Frenni, Crymych. Bu Jiwli'n adrodd hanes ei gyrfa ers iddi adael y coleg yn 1981. Roedd y gynulleidfa yn eu dyblau wrth wrando arni'n adrodd, yn ei ffordd ddihafal, naturiol ei hun, nifer o storïau a hanesion difyr am athrawon, disgyblion, cymeriadau lleol a digwyddiadau doniol a thrwstan yn ystod ei deugain mlynedd fel athrawes a phrifathrawes. Bydd y cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch nos Fercher, Tachwedd 12fed, a'r siaradwraig wadd fydd y Parchedig Sian Elin Thomas, Crymych.
Os hoffech chi ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg y tâl aelodaeth yw £15 am y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Cadeirydd, Dylan John – 07800 515987, Caroline Jones, Ysgrifennydd – 07854 004478 neu Kevin Roberts, Trysorydd – 07747 847804.



**Dylan Jones a Jiwli Higginson**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn i Llew Owen-Jenner sydd yn dathlu ei benblwydd yn 8 mlwydd oed ar Dachwedd 18fed. Mae Llew yn frawd mawr balch i Gruffydd Dyfed Jenner, a gafodd ei eni ar 17eg o Orffennaf i Gwilym a Ffion o Gaernarfon. Daw'r cyfarchion oddi wrth Mamgu a Dadcu Efailwen a'r teulu i gyd.



Penblwydd Hapus iawn i Osian Jones (wyr i Delyth a Michael Roblin, Clunderwen) a oedd yn 5 oed ar Hydref 5ed. Mab Sioned a Llyr Jones, Drefach Felindre. Cyfarchion wrth y teulu oll. Xx






# RHYDWILYM

Roedd gwasanaeth brynhawn Sul, Medi 21ain yn oedfa Ddiolchgarwch. Diolchwn i Natalie Morgan am wasanaeth bendithiol iawn.
Diolch hefyd i'r Parchg Ken Thomas am oedfa Gymun brynhawn Sul, Hydref 5ed.
Bydd y Gymanfa Ganu yn cael ei chynnal yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar Sul
Hydref 19eg.

Tachwedd 2il 10.30. Cymun. Tudur Dylan Jones.
Tachwedd 23ain 10.30. Parchg Peter M Thomas

Yn yr oedfa Gymun ddiwethaf gwnaeth y Parchg Ken Thomas gydymdeimlo gyda
Beryl John ar teulu ar ol colli chwaer yng nghyfraith, ac i Ann Llewellyn ar ôl colli modryb sef Dilwen John.

Falch i weld bod Ann Youngman wedi gwella ar ol bod yn anhwylus, a dymunwn yn dda i bob un sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Nos Sul, Hydref 5ed cynhaliwyd cyfarfod yng ngofal Tasglu Cristnogol Sir Benfro yn y capel.

**Cyfraniadau**
Eilir Davies, Meisgyn - £20

# RHYDYCEISIAID

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Aled Adams ac Amy Tynan, Pontyberem, a'r achlysur eu priodas ar Medi 26ain yn yr Alban. Hir oes a phob hapusrwydd i'r ddau ohonynt. Cyfarchion oddiwrth Thomas a Megan a Mam a theulu Amy.




Cydymdeimlwn â Eifion Griffiths, Brynsiriol ar farwolaeth Violet Brynsiriol. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Rhydyceisiaid ar ddydd Gwener, Hydref 3ydd dan ofal y Parchedig Huw George, a'r organyddes oedd Eifiona Lewis. Y trefnwr angladdau oedd Peter Evans Talacharn a Hywel Thomas Brynderwen.
Cydymdeimlwn hefyd â Mair a Ronnie Morgan a teulu Picadily ar farwolaeth Violet Brynsiriol.

# CYNGERDD YR ADFENT

SPAN

Estynnwn wahoddiad gwresog i chi ymuno â ni yng nghapel Pisga Llandysilio prynhawn Sul 30 o Tachwedd ar gyfer ein cyngerdd blynyddol ar Sul cyntaf yr Adfent. Rydym yn falch i gyhoeddi bydd y tenor Trystan Llŷr Griffiths yn ein diddanu unwaith eto a cheir perfformiadau corawl oddi wrth Côr Llanddarog.

Cyngerdd Yr Adfent
**Dydd Sul 30 Tachwedd**
**Capel Pisga, Llandysilio, SA66 7TF**
Gyda tenor ***Tristan Llŷr Griffiths*** ac **Côr Llanddarog**

Agorwyd: 16:30. Dechrau: 17:00
Llawn: £12, Consesiwn: £10
Archebwch: www.span-arts.org.uk/book
01834 869 323

CLG no. 04150772 | Charity no.1088723
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
menter iaith Sir Benfro

**Cartref Newydd**
Dymuniadau gorau i Hywel ac Ann Morris, Golygfan yn eu cartref newydd yn Dolanog, Pwll Trap. Boed iddynt gael iechyd da ac hapusrwydd yno.

Cofiwn yn dyner am yr aelodau sydd yn anhwylus yn eu cartrefi yn cynnwys Miss Gwennie Rees sydd yng Nghartref Maes Llewellyn, Castell Newydd Emlyn ac a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 92 oed ym mis Tachwedd.

# PWLL TRAP

Trist clywed am farwolaeth disymwth Emrys Phillips yn ei gartref yn Lon Las. Cydymdeimlwn â'i deulu ar eu colled.

Llongyfarchiadau i Sharon Griffiths, Maes yr haf, ar enedigaeth ŵyr, Mostyn Tomos, ar Awst 22ain. Mab i Iwan a Beth o Hill Mountain a brawd bach i Lili Wen a oedd yn 2 oed ar Awst 31ain.

Cydymdeimlwn â Glyn a Menna, Penupton a'r teulu ar farwolaeth eu nai, Martin Thomas o Heol Henfwlch, Caerfyrddin.

Dymuniadau gorau i Rhonna Thomas-Phillips, Maes yr awel ar ei hymddeoliad yn ddiweddar.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd noson arbennig yng nghwmni Al Lewis ar Fedi 12fed. Braf iawn oedd gwrando arno yn canu nifer o'r ffefrynnau ac yn esbonio pam iddo gyfansoddi'r caneuon. Roedd Arwel Lloyd, sef Gildas, yn cyfeilio iddo a da hefyd oedd gweld y gynulleidfa luosog yn y capel. Mwynhawyd y noson gan bawb.





Hanes Ruth o'r Hen Destament gafwyd yn yr oedfa ar Fedi 14eg. Bu'r aelodau yn cyflwyno hanes Ruth mewn darlleniadau ac ar ffurf drama. Hefyd, gosodwyd cwestiynau yn deillio o'r stori a chafwyd trafodaeth ddifyr. Diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn cymryd rhan, Dai Rees ar yr organ a'r gwragedd fu'n paratoi lluniaeth.

Cynhaliwyd oedfa gymun ar fore Sul, Hydref 5ed gyda'r aelodau yn cyflwyno rhai o ddamhegion yr Iesu. Gweinyddwyd y cymun gan y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Dai Rees oedd yn cyfeilio. Yn dilyn yr oedfa bu Verian yn dweud gair ar ran y capel i longyfarch Rhodri a Marian ar eu Priodas Aur a chyflwynwyd hwy ag anrheg a wnaed gan Rhys gan ddefnyddio hen bren y capel. Cyflwynodd Sally flodau i Marian. Gwnaed y diolchiadau gan Rhian cyn i bawb fwynhau cinio ysgafn a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol.




Dymuna Rhodri a Marian ddiolch i ffrindiau a chymdogion am eu cyfarchion ar ddathlu eu Priodas Aur, ac yn enwedig i aelodau Bethlehem Newydd am drefnu dathliad mor arbennig.

**Tŷ Croeso**

Cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan ar Fedi 23ain. Trefnwyd gan Sefydliad y Merched gyda chymorth gwirfoddolwyr Croeso Cynnes. Roedd yn fore llwyddiannus iawn a chodwyd £901 tuag at yr elusen. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y bore gan gynnwys y busnesau lleol a gyfrannodd y gwobrau raffl.



Pan ddeallwyd fod Banc Bwyd Hendygwyn yn brin o nwyddau brecwast cafwyd apêl frys i gasglu nwyddau. Cafwyd ymateb arbennig eto a throsglwyddwyd dau lond car o fwydydd i'r Banc Bwyd. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu, i Pethau Olyv am dderbyn nwyddau, hefyd i Verian am drosglwyddo'r nwyddau i'r Banc Bwyd. Yn ôl Helen o'r Banc Bwyd "we are overwhelmed by your amazing response.". Diolch.





# SAN CLÊR

Gyda thristwch y clywyd y newyddion am farwolaeth Wyndham Phillips, County Stores. Roedd yn adnabyddus iawn yn San Cler gan iddo ef a'i wraig, Sheila, redeg busnes llwyddiannus pobi bara, County Stores, am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â Sheila a'u mab, Michael a'r teulu yn eu galar a'u colled

Dymunwn benblwydd hapus i Ann Crowdie, Park View, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Hydref 13eg.

# TRELECH

**Cydymdeimlo**

Ein cydymdeimlad dwysaf â Veronica a Gwenllian, Blaenwauntwr ar farwolaeth gŵr a thad annwyl sef Ryan Evans a fu farw ar ôl llawdriniaeth a chyfnod yn yr ysbyty.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Huw ac Ema, Tresi Aur ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

**Penblwyddi**

Pob dymuniad da i Eifion Jones, Brynsiriol sydd wedi dathlu penblwydd arbennig tra ar ei wyliau yn yr Iwerddon mis diwethaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Owen Howells, Erw Lon ac i Iestyn Davies, Nantycyw - y ddau yn dathlu penblwydd yn 40 oed.

**Gwellhad**

Pob dymuniad da i Glyn Davies, Rhydygors gynt, sydd yn parhau yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda iddo ar ôl ei lawdriniaeth.

# LOGIN

**Calfaria**

**Oedfaon**

Diolch o galon i Natalie Morgan a Ken Thomas am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Tachwedd 2il - Tudur Dylan Jones - Cymun am 2
23ain - Peter Thomas - Cwrdd am 2
Rhagfyr 7fed - Catrin Thomas - Cymun am 10.30
21ain - Cwrdd Nadolig aelodau am 10.30

**Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Bu Ceirios yn cynrychioli Calfaria ar y daith gerdded noddedig blynyddol a gynhaliwyd yng Nghefnypant.

THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk

Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin
Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel

MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y Gaeaf ar nos Fawrth, Medi 23ain. Cafwyd hanes y Ffair Haf a mawr oedd y clod ein bod wedi trosglwyddo £1000 o elw y Ffair, i gronfa lleol Eisteddfod y Garreg Las. Ymdrech arbennig. Edrychwn ymlaen yn awr at noson gymdeithasol, "Dod a rhannu swper", ar nos Sadwrn, Hydref 25ain am 7 o'r gloch. Cewch fanylion y gweithgareddau eraill yn y rhifyn nesaf.

# LLANBOIDY

**Chwaeroliaeth**

Ar Fedi'r 17eg cwrddodd yr aelodau am brynhawn cymdeithasol yn y festri. Croesawodd y Llywydd Wenfys Rees bawb i'r cyfarfod a bu'n cydymdeimlo â Mair Morgan wedi iddi golli ei brawd. Ar nodyn hapusach, bu'n llongyfarch Anne Lewis ar ei phenblwydd yn 80 oed a Gwenda Williams ar ei phenblwydd yn 70 oed. Cafwyd prynhawn yn llawn hanes ardal Llanboidy gyda lluniau casglwyd gan Merle Evans yn cael eu dangos ar sgrîn deledu. Prynhawn hyfryd i bawb ac yn gorffen gyda danteithion a te a baratowyd gan Wenfys a Delyth.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn ag Eifion Griffiths ar ôl iddo golli eu bartner Violet, hefyd a'i chwaer Mair Morgan a'r teulu. Hefyd cydymdeimlwn â Catherine Davies Fron Eglwys Fair a'r teulu wedi iddi golli ei gwr Dave.

**Diolch**

Dymuna Eifion Griffiths ddiolch i'w deulu, ffrindiau a cymdogion am y cardiau a galwadau ffon o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth ei bartner sef Violet Adams. Diolch i'r nyrsys, doctoriaid Meddygfa Taf a'r gofalwyr am eu gofal arbennig.
Diolch i bawb.

**Sefydliad y Merched**

Yn y cyfarfod ar Awst 11eg, y gwestai oedd Mark Lange a ddaeth i siarad am Therapi Amgen a diolchodd y Llywydd Denise iddo am ei ymweliad. Enillydd y gystadleuaeth oedd Nia ac enillodd Denise y raffl.

Enillwyr Sefydliad y Merched Llanboidy yn Sioe y Sir.



Dyma rhai gafodd lwyddiant yn Sioe Sefydliad y Merched. Enillodd dwy brif wobrau sef Mair Morgan a gafodd tlws am ei gosodiad blodau a Jayne Evans enillodd y Rhuban Glas am y gosodiad blodau gorau.Enillodd cangen Llanboidy dlws am y nifer fwyaf o bwyntiau i gangen a llai nag 20 o aelodau.

**Eisteddfod y Garreg Las**

Cafwyd noson llawn hwyl o dan ofal Dorian Phillips yn Neuadd y Farchnad, pan dychwelodd rasus ceffylau i'r pentre am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Braf oedd gweld nifer o'r talgylch ac ymhellach wedi mentro allan ar noson stormus a casglwyd swm anrhydeddus gan Bwyllgor y Neuadd tuag at gronfa'r Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Diolch i bawb a gyfranodd at y noson lwyddiannus hon.




BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# CWM MILES

Braf oedd croesawu y Parchedig Gareth Ioan i gymun mis Hydref. Ei destun, un amserol iawn, oedd heddwch.
Cewch hanes y Cwrdd Diolchgarwch ar Sul, Hydref 19eg yn y rhifyn nesaf pan byddwn wedi cael gwasanaeth y Parchedig Euros Jones Evans.

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen.**
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y Gaeaf ar nos Fawrth, Medi 23ain. Cafwyd hanes y Ffair Haf a mawr oedd y clod ein bod wedi trosglwyddo £1000 o elw y Ffair, i gronfa lleol Eisteddfod y Garreg Las. Ymdrech arbennig.
Edrychwn ymlaen yn awr at noson gymdeithasol, "Dod a rhannu a swper", ar nos Sadwrn, Hydref 25ain am 7 o'r gloch. Cewch fanylion y gweithgareddau eraill yn y rhifyn nesaf.

# LLANWINIO




# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Hydref 5ed dan ofal y Parch. Catrin Thomas a'r Sul canlynol cafwyd oedfa ddiolchgarwch dan ofal y Parch. Huw George. Diolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth.

Diolch i Llinos ac Ivy am gynrychioli'r eglwys ar daith gerdded flynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda ar 20fed o Fedi. Bydd yr arian a godwyd yn cael ei drosglwyddo i'r elusennau mewn Oedfa o Fawl a gynhelir yn Ramoth ar Sul, Tachwedd 30ain am 2 o'r gloch.

Dymuniadau gorau i Dafydd Evans sydd yn Ysbyty Athrofaol, Caerdydd yn dilyn damwain.

**Trefn yr oedfaon:**
**Tachwedd**
2il: Dim oedfa
9fed: Oedfa Cymun yng ngofal Arwel Evans - 2.00
**Rhagfyr**
7fed: Oedfa gymun dan ofal Orinda Roberts - 10.30
14eg: Oedfa Nadolig dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

---

**Parhad o dudalen 1.**
Cafodd y busnes ei sefydlu yn Nhalacharn yn 1875 gan Mr. Owen Williams. Yn y blynyddoedd a ddilynodd, symudodd y busnes o bedair genhedlaeth, i Sanclêr lle ei reolwyd gan Mr. Gilbert Williams. Roedd ganddo ddau fab, Owen a Randal – fe aeth y ddau ohonynt mewn cyfeiriadau gwahanol o ran gwaith. Dilynodd Randal ei dad mewn i'r busnes cerrig bedd ac fe aeth Owen ymlaen i ddatblygu busnesau eraill yn cynnwys masnachu glo, delwriaeth tractor, busnes cludo ac yn fwy ddiweddar dosbarthiad olew (O . J. Williams.) Cafodd Randal ddau fab, Gilbert a Phillip. Y mae Gilbert yn parhau i redeg y busnes yn Sanclêr, ac mae ei frawd yn ffermio.

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion
a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

## MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James ein siaradwyr gwâdd, sef Noel a Hiefina James. Daeth y ddau i siarad â ni am yr amser pan roeddent yn Rasio Glas (Auto Grass Racing).

Maent wedi bod yn rasio am flynyddoedd ac yn wir wedi cael cryn lwyddiant. Mae Hiefina wedi ennill tair ar ddeg ras Genedlaethol a bu'n Bencampwraig y Pencampwyr, dair gwaith. Mae Noel hefyd wedi ennill sawl cwpan arian am rasio. Buont yn dangos sawl ffilm o'r rasus a Hiefina yn siarad am eu cynnwys.

Cawsom brynhawn arbennig o dda yn eu cwmni gyda pawb yn edmygu eu dewrder.

Diolchodd Meirion Morris iddynt am brynhawn difyr.

Mis nesaf, Tachwedd 4ydd bydd ein Cwrdd Diolchgarwch pan fydd Sion Page yn ein hanerch.

Wrth y tê bydd Doreen, Violet, Sara, a Shirley.
Yn rhoi raffl - Hiefena – Brian, Emrys a Glenda.



## BLAENWAUN

Llongyfarchiadau i Llyr a Ceris Phillips, Corlan ar enedigaeth bachgen bach o'r enw Celt Eirug, wyr cyntaf i Ann ac Irfon Phillips, Swyn y wawr.

**Moriah**

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth yng nghymun mis Medi. Cewch hanes y Cwrdd Diolchgarwch ar Sul, Hydref 19eg, dan ofal Elonwy Phillips, yn y rhifyn nesaf.

**Taith Gerdded Hywel Dda.**

Ar fore gwlyb ym mis Medi mentrodd rhai o'r aelodau ar y daith gerdded flynyddol. Diolch iddynt am eu hymdrechion. Gweler yr hanes yn y rhifyn hwn.

**Oedfa o Fawl.**

Ar fore Sul, Hydref 5ed cynhaliwyd oedfa o fawl yng Nghapel Cefnypant dan lywyddiaeth y Parchedig Gareth Ioan. Oedfa cylch y Gymanfa Ganu yw hon sydd wedi dod yn achysur blynyddol. Mae pob eglwys yn dewis emyn ac yn rhoi hanes y don a'r geiriau. Evanna James ddewisodd yr emyn eleni ar ran Moriah, "Mae d'eisiau Di bob Awr" a rhannodd Meinir Eynon tipyn o'i hanes. Cafwyd eitemau cerddorol hyfryd gan blant ysgol Sul Nebo a bu casgliad at "In it with Isaac", elusen lleol.

Tachwedd 2il. Cymun 10.30 Parchedig Gareth Ioan.

## LLANGLYDWEN

**Gwellhad**

Dymunwn adferiad buan i Haydn Evans, Taf wedi iddo gael trawiad ar ei galon yn ddiweddar.

Cafodd lawdriniaeth brys yn Ysbyty Treforus a da deall ei fod wedi cael gofal arbennig yno.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Eleri Jones, Glenview ar ddod yn famgu. Ganwyd bachgen bach o'r enw Reuben Tomos Armstrong i'w merch Sarah a'i phartner Dan ar Hydref 5ed. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.

## CLUNDERWEN

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus yn 80 oed i John Thomas o Arberth (tad Andrea a Emyr Davies, a tadcu Emlyn, Owain a Iestyn o Clunderwen). Dathlodd John ei benblwydd arbennig gyda pharti yng Nghaffi Beca. Gofynnodd John am gyfraniadau i Prostad Cymru yn lle anrhegion. Roedd yn hapus i gyflwyno siec o £510 i'r elusen. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau hael.

HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
Diolch am eich cefnogaeth

GT TYRES
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705




**John yn cyflwyno siec i Prostad Cymru**



Hefyd penblwydd hapus i Iestyn Davies a fydd yn 18 oed ar Hydref 25ain - mab Andrea a Emyr, brawd Emlyn a Owain ac wyr John a Pauline o Arberth.



Penblwydd hapus hefyd i Rosie Hughes a oedd yn 21 oed ym mis Medi, ac hefyd i'w thad, Rob Hughes oedd yn 50 oed ar Hydref 10fed.






**Hanner Marathon Caerdydd**

Llongyfarchiadau i Emlyn a Owain Davies, am gwblhau Hanner Marathon Caerdydd ar ddechrau'r mis. Roeddent yn codi arian i Popham cymorth arennau, elusen sydd yn meddwl llawer i'r teulu. Maent wedi codi swm anhygoel o arian a maent yn ddiolchgar iawn i bawb am eu haelioni.

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GP Architecture Studio
Arbenigo mewn dyluniadau preswyl pwrpasol
Adnewyddu amryw o Gartrefi
Anheddau Pwrpasol Newydd
Addasiadau Cyfoes
Cadwraeth Traddodiadol
Facebook - @GPArchStudio
Instagram - @gp.archstudio
Email - info@gparchstudio.wales
RIBA Chartered Practice
arb

TŶ BACH TWT
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831144/ 07900 692678

**Clwb Ffermwyr Ifenc Clunderwen**

Llongyfarchiadau i Charli a Steve Woodhall, ar eu priodas yng Ngwesty'r Cliff ar Medi 13eg. Dymunwn bob hapusrwydd yn y dyfodol iddynt.





Llongyfarchiadau hefyd i Llinos Ford ar ddod yn Gadeirydd CFfI Sir Benfro am y flwyddyn. Pob lwc iddi.

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Mis Hydref buodd Annie Hammersley, un or aelodau, yn dangos i'r gwragedd sut i wneud 'Quilling'.



Llongyfarchiadau i ddwy o wragedd y clwb a enillodd gwpan yn Sioe Clunderwen nol yn mis Awst - Nia Davies am ddod yn gyntaf gyda blodau a Barbara Pegg am ennill yn y preserves. Da iawn wir.



**Nia Davies**




**Barbara Pegg**









## CFfI Penybont

Daeth newyddion da i glwb Penybont fis diwethaf wedi i ni ennill Clwb y Flwyddyn yn Sir Gâr ar gyfer y flwyddyn 2024-25.
Casglodd ein Cadeirydd newydd eleni Lowri Powell y tlws.

Cipiom hefyd Dlws John a Hazel James am y marciau uchaf yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus y sir ar y cyd â chlwb Llanllwni.

Cafodd Hannah Richards ei hethol yn Gadeirydd Gweithgareddau Sir Gâr a Celyn Richards yn Gadeirydd Fforwm Ieuenctid y sir eleni.
Pob dymuniad da i'r ddwy.

A phob hwyl i Elin Phillips sydd wedi cael ei dewis ar gyfer taith CFfI Cymru i Wlad yr Ia.

Ein swyddogion eleni yw :

Cadeirydd - Lowri Powell
Ysgrifennydd - Anwen Phillips
Trysorydd - Steffan Richards
Gydag Elin Phillips, Ffion Thomas a Hannah Richards yn ddirprwyon yn y swyddogaethau hynny.

Pob dymuniad da i bawb gyda'u gwaith



LYNDON GEORGE
ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL
MOT
•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4
Offer Diagnostig Diweddaraf

Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.
•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER
Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

**GŴYL RHINWEDD A MOES**

Cynhelir Brecwast Gŵyl Ddewi
Yng Nghaffi Beca, Efailwen Bore Sul 22 Chwefror 2026 am 10 o'r gloch

Siaradwr Gwadd Cleif Harpwood

Enwau a thâl o £12 i ysgrifenyddion y capeli erbyn dydd Iau 12 Chwefror ar yr hwyraf os gwelwch yn dda.

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA'R POST
Ffôn: 01994 448221

Olew Trefigin oil
Y Gwasanaeth sy'n Gweithio
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
01239 881650
01239 881282
www.trefigin.cymru

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Ar fore Sadwrn gwlyb iawn, Medi 20fed, cyfarfu'r aelodau yng Nghefnypant.

Nid oedd y nifer mor niferus ag arfer, y tywydd ddim yn ffafriol o gwbl. Cafwyd gair o groeso gan Meinir Eynon ac arweiniodd y ficer Jenny Parsons ni mewn gweddi. Er gwaetha'r tywydd, cafwyd hwyl yn ymdroelli ar hyd hewlydd yr ardal. Cafwyd croeso arbennig gan aelodau y capel wedi cyrraedd pen y daith. Digon o fwyd i borthi'r pum mil. Diolchodd Meinir i bawb o'r eglwys am y trefniadau manwl ac am y wledd, a diolch i aelodau Ramoth, Cwmfelin am eu hymdrechion hwy gyda'r lluniaeth. Edrychwn ymlaen yn awr at yr arian i ddod fewn ac am yr oedfa i drosglwyddo'r arian.

**Oedfa o Fawl dan nawdd Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Prynhawn Sul Tachwedd 30ain
am 2 o'r gloch
yng Nghapel Ramoth, Cwmfelin Mynach

Dan arweiniad - Edryd Eynon
Cyfeilyddes - Ceirios Jenner

*Yr elw i'w rannu rhwng:*
*Unedau Cemotherapi Ysbytau Llwynhelyg a Glangwili*
*Cymdeithas Motor Neurone*
*Meddygfa Rhiannon, Arberth*

Cesglir yn yr oedfa

Bydd rhaglenni wrth y drws



**Y cerddwyr dewr yn cael eu llun wedi ei dynnu o flaen Capel Cefnypant. Taith hwylus iawn heblaw am tywydd!**

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

## Bysiau Cwm Taf

Llongyfarchiadau mawr i Bysiau Cwm Taf ar ddathlu 35 mlynedd ers sefydlu'r busnes.

Cynhaliwyd prynhawn agored ar Sadwrn olaf mis Gorffennaf a cynhaliwyd cyngerdd elusennol er budd Prostad Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru ar y noson honno, yng nghwmni Cor Meibion Hendy Gwyn, Tudur Wyn, Dafydd Pantrod a Clive Edwards.

Roedd hi'n hyfryd gweld y babell dan ei sang a phawb yn mwynhau mas draw.

Dyma rhai lluniau o'r diwrnod.



**Clive, Heather a Joseff yn dathlu 35 mlynedd ers sefydlu'r busnes.**






## Codi Cerflun Twm Carnabwth

Mae'r ymgyrch codi arian yn mynd yn ei flaen ac erbyn hyn rydym wedi codi £22,500

Diolch o galon i'r canlynol am gefnogi, gwerthfawrogwn eich haelio ni'n fawr :-

Cyngor Cymuned Llanboidy - £250

Aelodau MyW Tegryn - £50

Cyngor Cymuned Mynachlogddu - £500


Rocesi'r Fro - £70

Mae modd cyfrannu drwy wneud taliad uniongyrchol i gyfrif banc CCMCC Cymdeithas Cwm Cerwyn
30 91 65 01036767 neu'r dudalen Go Fund Me https://www.gofundme.com/f/codi-cerflun-o twm-carnabwth- statue-fund

Gellir hefyd posto siec yn daladwy i CCMCC Cymdeithas Cwm Cerwyn i Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP.



**Dyfed Davies, Cadeirydd Cyngor Cymuned Mynachlogddu yn cyflwyno siec o £500 i Eurfyl Lewis, trysorydd ymgyrch codi cerflun Twm Carnabwth.**









# "Tipyn bach o ddamwain"

gan Fred Green

Dydd Sul braf oedd hi, y 13eg o Orffennaf, a penderfynais i seiclo ar un o fy hoff deithiau drwy Tegryn, Crymych a Llanfyrnach. Dw i'n cofio fy mod i tua saith milltir o adref. Y peth nesaf dw i'n ei gofio, ro'n i'n cael fy rhoi mewn hofrennydd. Ni allaf gofio gormod o'r dydd heblaw am weld fy ngwraig, fy mab a fy merch mewn stafell yn yr ysbyty, ac wrth gwrs y meddygon a'r nyrsys oedd yn gofalu amdana i.

Dros y dyddiau nesaf, dysgais i beth oedd wedi digwydd. Roedd yr olwyn blaen wedi bwclo mewn twll yn yr heol, cwympais i o flaen car oedd yn teithio yn y cyfeiriad arall a ges i fy mharo dros fy ochr de. Torrais i esgyrn yn y pen-glin, y glun, yr ysgwydd a fy wyneb ar bwys fy llygad. Ro'n i'n gwaedu yn yr ymennydd ac ysgyfaint hefyd. Ro'n i'n gwisgo helmed, diolch byth, a felly goroesais i'r ddamwain.

Ges i fy hedfan o Sir Gâr i'r Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, gan fod yr adnoddau fanna i drin fy anafiadau amrwyol. Ces i lawdriniaeth i drwsio'r pen-glin a llawdriniaeth i roi hidlwr yn fy ngwythiennau i atal tolchenni yn fy ymennydd a fy ysgyfaint. Y peth mwya difrifol oedd tolchenni gwaed, gan eu bod nhw'n gallu peryglu fy mywyd, fel dw i'n deall. Ces i ffrâm gefnogol ar fy nghoes dde i'w gadw yn syth ac yn ddiogel.

Ro'n i'n falch clywed bod Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn meddwl taw Cymraeg oedd fy iaith cyntaf, er ni siaiaradais i llawer o synnwyr, dw i'n siŵr. Ar ôl diwrnod yn y ward wella, symudwyd fi i'r ward 'polytrawma' ble ro'n i'n treulio y deg diwrnod nesaf.

Ces i ofal da yn y ward, rhaid i fi ddweud. Daeth y nyrsus o bedwar ban y byd, ac roedd yn amlwg i fi y byddai problemau fawr yn y GIG heb mewnfudwyr. Wrth gwrs, roedd rhai Cymry, ond dim ond rhai ohonyn nhw sy'n siarad Cymraeg. Gan ro'n i'n dioddef cyfergyd yn y ddamwain, ces i gwestiynau yn y dyddiau cyntaf am fy enw, y flwyddyn a dyddiad fy ngeni. Penderfynais i ddweud dyddiad fy ngeni yn Gymraeg - y pedwerydd o Hydref, mil naw pedwar wyth - (gyda esboniad os byddai angen). Ar ôl sbel byr, ysgrifennodd un o'r nyrsys sy'n siarad Cymraeg nodyn yn fy ffeil a wedyn doedd dim rhaid i fi esbonio y dyddiad. Ces i sgwrs yn Gymraeg gyda sawl nyrs a meddyg ar y ward.

Gyda chymorth y ffysios, dysgais i sut i gerdded gyda ffram heb rhoi pwys ar fy nghoes dde a wedyn, i fod yn barod i ddychwelyd adre, sut i dringo a sut i ddod lawr grisiau. Roedd teimlad o ryddhad pan o'n i'n gallu mynd i'r tŷ bach ar ben fy hunan, ond ro'n i angen cymorth i ymolchi, ac wrth gwrs newid y rhwymau.

Mae Frederick Green yn byw yn Ty Newydd, drws nesaf i hen ysgol Penygaer.

Ces i paracetamol a morffin sawl gwaith y diwrnod er mwyn lleddfu'r boen hefyd. Roedd yn anodd i fwyta gyda esgyrn wedi eu torri yn y wyneb, ond ro'n i'n ymdopi'n well bob dydd.

Ar ôl deg diwrnod, ro'n i'n gallu dychwelyd adref. Trefnodd yr ysbyty ambiwlans i fy nghludo o Gaerdydd i Sir Gâr oherwydd y grisiau i'r tŷ a nawr dw i'n gallu ymlacio gartref. Bydd rhaid i fi fynd i apwyntiadau yn yr ysbyty lleol er mwyn cael mwy o driniiaeth a bydd sawl wythnos arall cyn gallaf grwydro fel ro'n i'n arfer, ond dw i'n diolchgar iawn i'r GIG ac i bawb sy'n gweithio yn yr ysbytai.

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA
CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Llais y Disgybl**

Buodd y plant yn brysur iawn yn canfasio ac yn pledleisio dros diwrnodau cyntaf y tymor newydd. Cynhaliwyd etholiadau dosbarth ar gyfer ein Senedd Ysgol, Cabinet Iaith a Diwylliant, Cabinet Iechyd a Lles, Criw Ffrindiau Ffyddlon a Chriw Darllenwyr Dawnus. Llongyfarchiadau enfawr i bawb cafodd eu hethol ac edrychwn ymlaen i glywed am eu syniadau da ac i gydweithio gyda'n haelodau er mwyn parhau i ddatblygu a gwella Ysgol Brynconin.



**Diwrnod Streips**

Braf oedd gweld y plant a'r staff yn eu streipiau ar Ddydd Mercher, 24ain o Fedi er mwyn codi arian ac ymwybyddiaeth i elusen pwysig sef Ymchwil Cancer Cymru. Codwyd swm o £70 tuag at yr elusen arbennig hon a diolch i bawb am eu cefnogaeth.



**Twrnament Tag Rygbi Bl.3 a 4**

Da iawn i blant o flynyddoedd 3 a 4 oedd wedi cystadlu yn nhwrnament Tag Rygbi'r Urdd ar Ddydd Mercher, Hydref 1af yng Nghlwb Rygbi Arberth. Diolch i Miss Kim am baratoi y plant a diolch enfawr i Arwel Beynon am helpu ni i ofalu am y plant. Fe wnaeth y plant gystadlu'n dda mewn twrnament anodd iawn.



**Llysgenhadon Iechyd a Lles**

Braf oedd cael croesawu tîm Chwaraeon Awdurdod Addysg y Sir i'r Ysgol ar brynhawn Mawrth, Hydref 7fed er mwyn cynnal sesiwn hyfforddi gyda Llysgenhadon Iechyd a Lles yr Ysgol. Pwrpas y sesiwn oedd i ddatblygu sgiliau ymarfer corff a rhannu syniadau o ran arwain gemau hwyl adeg amser chwarae.

**Diwrnod T. Llew Jones**

Braf oedd dathlu bywyd yr awdur a'r bardd enwog o Gymru ar Ddydd Gwener, Hydref 10fed. Cafodd y plant gyfle i ddysgu am fywyd yr awdur a'r bardd ac hefyd dysgu rhai o'i farddoniaeth. Creuwyd murlun o waith Diwrnod T. Llew Jones yn Ogof Waldo (Llyfrgell yr Ysgol).

## YSGOL LLYS HYWEL

**Diwrnod Roald Dahl**

Mwynhaodd plant yr Ysgol gyfan gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu diwrnod Roald Dahl. Bu disgyblion blynyddoedd 3 i 6 yn ymweld â'r llyfrgell leol, dylunio clawr a chreu bas data o lyfrau Roald Dahl.

**Abaty, Hendygwyn**

Cafodd disgyblion 3, 4, 5 a 6 groeso cynnes gan bwyllgor Hendy-gwyn a threfnwyd arddangosfa yn Neuadd Hendy-gwyn i ddysgu'r plant am hanes a bywyd yn yr hen Abaty. Roedd y plant wedi cymryd rhan mewn sawl gweithgaredd ac wedi mwynhau'r profiad.



**Wythnos Ailgylchu**

I godi ymwybyddiaeth o wythnos ailgylchu, roedd disgyblion yr Ysgol gyfan wedi cymryd rhan mewn sioe ffasiwn Eco. Cafwyd bore arbennig o arddangos eu gwisgoedd Eco a chasglu sbwriel o gwmpas y gymuned.




**Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd**

Dathlwyd y diwrnod trwy wneud sawl gweithgaredd yn seiliedig ar yr iaith Ffrangeg. Cafodd bob Dosbarth gyfle i gymryd rhan mewn sawl gweithgaredd amrywiol megis dysgu caneuon, bwyta crossaint a chwarae gemau.

**Prynhawn Peripatetig**

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Dyffryn Taf i fwynhau prynhawn o adloniant gan griw peripatetig Sir Gar. Roedd y plant wedi mwynhau canu ynghyd a'r ystod eang o gerddoriaeth ac offerynnau.

**Taith gerdded noddedig**

Cawsom brynhawn llwyddiannus iawn lle daeth rhieni i ymuno a phlant a staff yr ysgol gyfan wrth gerdded o gwmpas y dref gan orffen yn y neuadd. Codwyd cyfanswm o dros £2,500 i'r uned Chemotherapi, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli. Diolch i'r plant, y staff a'r gymuned am eich cefnogaeth!



## YSGOL BRO BRYNACH

**Ynni Da**

Ar ddydd Mawrth y 23ain o Fedi, cafodd disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 ymweliad gan gwmni Ynni Da. Mwynhaodd y plant ddysgu am sut mae trydan yn cael ei greu a'i ddefnyddio yn yr ysgol ac yn ein cartrefi. Cafwyd y cyfle i adeiladu ffynhonnell ynni adnewyddadwy eu hun a chael cyfle i fynd ar y beic mor gyflym a phosib i oleuo'r bylbiau.





**Bore Coffi Macmillan**

Ar y 26ain o Fedi, cynhaliwyd bore coffi i godi arian i elusen Macmillan yn neuadd yr ysgol. Diolch i aelodau o'r Cyngor Ysgol a fu'n brysur yn helpu gweini'r cacennau, trefnu a gwerthu raffl. Diolch i'r gymuned a'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

**CogUrdd/PobUrdd**

Ar ddydd Mawrth y 6ed o Hydref cymerodd rhai disgyblion ran yng nghystadleuaeth PobUrdd a ChogUrdd yn yr Ysgol. Y brîff oedd creu brechdan agored i gystadleuaeth CogUrdd a chacen dathlu yng nghystadleuaeth PobUrdd. Gwnaeth pob un ohonynt waith gwych ar y diwrnod. Llongyfarchiadau i Finley Gallie am ennill y gystadleuaeth PobUrdd drwy goginio cacen dathlu Calan Gaeaf a Poppy Frost â wnaeth brechdan agored blasus iawn.




**Cyngerdd Peripatetig y Sir**

Mwynheuodd y plant yn Ysgol Dyffryn Taf ar fore'r 24ain o Fedi. Cafwyd y cyfle i wylio cyngerdd peripatetig y Sir. Diddanwyd y plant â chaneuon a gwybodaeth am nifer o offerynnau gwahanol.Diolch yn fawr!



**Diwrnod Ffed**

Ar yr 22ain o Fedi dathlwyd diwrnod ffitrwydd cenedlaethol a chynhaliwyd ein diwrnod Ffederasiwn. Daeth Ysgol Beca lawr i Fro Brynach a gwnaeth y disgyblion ddysgu am bwysigrwydd a buddion cadw'n iach yn ogystal ag ymgymryd mewn amryw o weithgarwch corfforol a llesol. Mwynhaodd y disgyblion ddysgu sgiliau newydd wrth ymgymryd mewn sesiwn ioga, creu smwddis, chwarae bowls a sesiwn cylchedau.



**Cyngerdd Gwasanaeth Cerdd Sir Gar**

Bu dosbarth Cwm Cerwyn yn mwynhau cyngerdd gan Wasanaeth Cerdd Sir Gar yn Nyffryn Taf ar 24ain o Fedi. Cafodd y disgyblion amser arbennig yn gwrando ar y gerddorfa yn chwarae amryw o ganeuon a Mr Batcup hefyd wedi mwynhau fod yn rhan o'r sioe.



## YSGOL BECA

**Perfformio yng Nghyngerdd Caffi Beca**

Nos Wener, 19eg o Fedi fe gawson ni fel ysgol y fraint o berfformio yng nghyngerdd i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Cymru y Garreg Las 2026. Roedd hi'n noson i'w gofio ac yn fraint i allu rhannu llwyfan gyda holl dalentau'r gymuned. Diolch enfawr i Mrs Helen Thomas, Mrs Ceirios Jenner, Caffi Beca a Corlan am ein helpu cymaint.

**Macmillan**

Diolch i bawb wnaeth gefnogi bore coffi Macmillan ar Ddydd Gwener, 29ain o Fedi. Hoffwn ddiolch i Gaffi Beca am rodd garedig o gacennau ar gyfer y bore. Codwyd cyfanswm o dros £100 at achos mor dda.



**Diwrnod Lles**
Cafodd Ysgol Beca ddiwrnod lles gwych yn Ysgol Bro Brynach! Bu disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel bowlio, sesiwn ffitrwydd, gemau buarth, ioga a gwneud smoothies. Diolch i Glwb Bowlio Llanboidy am osod y bowls allan. Diwrnod llawn hwyl!

**BSL**
Mae'r disgyblion wedi mwynhau dysgu Iaith Arwyddo Prydain (BSL) dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n ffordd wych o gyfathrebu ac yn helpu i wneud ein cymuned yn fwy cynhwysol i bawb.

**Miss Soons**
Diolch i Miss Soons am gynnal gwersi Cerddoriaeth ar brynhawn dydd Iau. Mae disgyblion Dosbarth Carn Gyfrwy yn mwynhau dysgu am rythm a chlywed gwahanol offerynnau yn cael ei chwarae. Mae dosbarth Cwm Cerwyn yn mwynhau dysgu sut i chwarae'r recorder. Edrychwn ymlaen yn fawr at fwy o wersi gyda Miss Soons.

**Llysgenhadon**
Mae Llysgenhadon Efydd Chwaraeon yr ysgol wedi cael hyfforddiant yng Nghanolfan Hamdden Sanclêr er mwyn gallu hybu sgiliau chwaraeon plant yr ysgol ac helpu gyda rhedeg sesiynau i blant Ysgol Beca.

**Restart a heart**
Fe wnaeth Dosbarth Cwm Cerwyn gymryd rhan yng ngwers fyw Restart a Heart ar ddydd Mercher 1af o Hydref i ddysgu sgiliau achub bywyd CPR.



## YSGOL GRIFFITH JONES

**Masnach Deg**
Bu'r ysgol yn brysur yn nodi pythefnos Masnach Deg drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau difyr. Trefnodd y Pwyllgor gystadleuaeth 'Bake Off' gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg. Trefnwyd diwrnod o wisgo lliwiau'r logo a chystadleuaeth addurno cwpanaid o de gan taw neges yr ymgyrch eleni yw 'Berwch yn deg'/'Brew it fair' er mwyn tynnu sylw at broblemau'r ffermwyr te ar draws y byd.

**Clybiau**
Mae'r clybiau ar ôl ysgol eisoes wedi dechrau i Fl.3 – 6. Mae llu o blant wedi ymuno â'r clybiau canlynol – Iach ac Heini, ECO, Chwaraeon, Ffrindiau Digidol Ffrengig a Chymru Cŵl. Hefyd cynhelir sesiynau hyfforddi pêl-rwyd a rygbi yn wythnosol.

**Ymweliadau**
Aeth criw mawr o gerddorion Blwyddyn 5 a 6 yr ysgol ar daith i ysgol Dyffryn Taf i fwynhau cyngerdd cerddorol arbennig a drefnwyd gan dim athrawon offerynnol y Sir. Bu'r plant wrth eu bodd yn gwrando ar y gerddorfa yn chwarae clasuron o fyd y ffilmiau.
Aeth ein Llysgenhadon Chwaraeon sef Harri, Jac, Akira a Lilly-May i'r Ganolfan Hamdden yn Sanclêr i fwynhau prynhawn o hyfforddiant gyda Actif Sir Gâr. Bydd hyn yn eu helpu wrth arwain sesiynau ffitrwydd gyda'r disgyblion iau.



**Ymwelwyr**
Hyfryd oedd croesawu Ficer Sarah a Deacon John o'r gymuned atom unwaith eto i gynnal gwasanaethau a byddant yn dod atom bob wythnos yn ystod y tymor.
Croesawyd tim o staff yr Urdd i'r Ysgol i arwain sesiynau blasu ar gyfer disgyblion yr Ysgol. Cafodd y plant hwyl a sbri yn ymuno mewn amrywiaeth o gêmau hwylus.

**Rygbi**
Llongyfarchiadau i'r bechgyn canlynol am gael eu dewis ar gyfer tîm rygbi'r Rhanbarth:
Charlie Arundel, Alfie Jones, Alffi Morgan-Davies, Osian John, Junior Beckingham ac Archie Page.



# YSGOL HAFODWENOG

**Prynhawn Coffi Macmillan**
Cynhaliwyd prynhawn coffi i godi arian at elusen Macmillan ddydd Mawrth, 7fed Hydref. Bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn brysur iawn yn paratoi, gwerthu cacennau a chael cyfle i arwerthu hefyd. Llwyddwyd i godi £372.50 tuag at yr elusen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau ac i Miss Angela am baratoi'r cacennau. Cafwyd prynhawn hwylus a chymdeithasol dros ben.

**PobUrdd**
Cynhaliwyd rownd gyntaf cystadleuaeth PobUrdd yn yr Ysgol ddechrau mis Hydref. Y dasg eleni oedd paratoi cacen i ddathlu penblwydd. Bu nifer o'r plant yn brysur yn pobi. Llongyfarchiadau mawr i Efa am ddod yn fuddugol eleni, Iwan yn ail a Rosie yn drydydd. Pob lwc i Efa yn y rownd nesaf.

**Diolch Miss Bethan**
Trist oedd ffarwelio ar ddechrau'r mis gyda Miss Bethan James. Mae Miss Bethan, erbyn hyn wedi bod yn Gynorthwyydd Clerigol yn yr ysgol ers chwe mlynedd. Mae hi'n aelod gweithgar iawn o staff yr Ysgol ac yn gweithio'n ddiwyd y tu ôl i'r llenni er mwyn sicrhau fod pob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yn rhedeg yn llyfn. Mae hi hefyd yn gyfaill arbennig i'r staff a'r plant. Mae dyled yr Ysgol yn fawr iawn i chi am eich ymroddiad di-baid dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn sicr yn gweld eich eisiau yn fawr iawn. Pob dymuniadau da i chi i'r dyfodol.

# YSGOL BANCYFELIN

**Cyngerdd yr Athrawon Offerynnol**
Diolch yn fawr i athrawon teithiol offerynnol y Sir am gyngerdd o safon uchel yn Ysgol QE High ar Ddydd Gwener, Medi'r 26ain. Cafwyd prynhawn llawn adloniant, hwyl a sgiliau cerddorol gwych!

**Ymweliad gan y Gwasanaeth Tân**
Diolch o galon i Elinor o'r Gwasanaeth Tân am ddod i ymweld â disgyblion Ysgol Bancyfelin heddiw i drafod diogelwch yn y cartref wrth ddefnyddio eitemau trydanol. Rhannodd Elinor gyngor pwysig i sicrhau ein bod yn defnyddio offer trydanol yn ddiogel a bod yn ofalus ac yn ddoeth wrth wefru teclynnau er mwyn osgoi peryglon posibl fel tanau. Dangosodd sut i ddefnyddio eitemau trydanol yn gywir a sut i ofalu am geblau ac ati.
Os oes unrhyw un eisiau derbyn larwm mwg am ddim ar gyfer diogelwch yn y cartref yna gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Tân drwy ffonio 0800 169 1234 neu drwy ymweld â'r safwe www.tancgc.gov.uk

**Gwasanaethau Crefyddol**
Rydym yn ffodus iawn o gael cefnogaeth Y Parchedig Beti Wyn a'r Ficer Ann yn yr Ysgol. Maent yn ymweld â ni bob tymor ac yn rhannu negeseuon a gwersi pwysig iawn gyda'r disgyblion. Diolch i chi am eich parodrwydd i ddod i weld y disgyblion ac am eich cymorth parhaus.

**Diwrnod CPR**
Cafodd disgyblion Ysgol Bancyfelin gyfle i ddysgu sgiliau gwerthfawr achub bywyd a CPR wrth gymryd rhan yn #Restart a heart Live25. Cynhaliwyd y digwyddiad byw ar-lein ar Hydref 1af o dan arweiniad
parafeddygon lle roedd y disgyblion yn dysgu CPR a sut i ddefnyddio diffibriliwr. Nod y digwyddiad oedd i hybu ymwybyddiaeth o ataliad y galon ac annog disgyblion i deimlo'n fwy hyderus gyda sgiliau achub bywyd.



Celia Vlismas
Optegydd
Castell Newydd
Emlyn
01239 711888
♦
Arberth
01834 861373

www,vlismas-opticians.co.uk
Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i'ch gweld

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO

Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL

01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

**Llysgenhadon Efydd**

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a gafodd eu hethol yn Lysgenhadon Efydd yr Ysgol am y flwyddyn 2025-2026. Byddant yn arwain, cefnogi a hybu chwaraeon o fewn yr Ysgol yn ogystal ag annog eu cyd-ddisgyblion i chwarae fel tîm, bod yn gyfeillgar wrth wneud chwaraeon a mwynhau gemau ac ymarfer corff o bob math.



**Bore Coffi – Adran Cemotherapi Ysbyty Glangwili**

Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Ysgol Bancyfelin o dan arweiniad y Cyngor Ysgol a disgyblion blwyddyn 6. Trefnwyd y bore coffi i godi arian i Uned Cemotherapi Ysbyty Glangwili a chawsom lawer o gyfraniadau hael tuag at yr apêl. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o rieni, perthnasau a ffrindiau wedi dod i gefnogi achos mor deilwng.

## Caffi Beca, Efailwen

## CAROLATHON NODDEDIG

**Dydd Sadwrn, Rhagfyr 13eg 2025**
**O fore tan hwyr**

**Marathon o ganu di-stop!!**

Corau, sefydliadau ac unigolion yn cael slot o tua hanner awr i berfformio carolau ac ati.



Codi arian tuag at Ymchwil Cancr Cymru, er cof am Jill Lewis

Dan nawdd CORLAN


**Jones Login**
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Top Hat, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** (dim ond un sedd ar ôl) **(Dyddiad newydd ar gael ym Mis Medi 2026!)** | 2 |
| Sad 17 | **Mamma Mia - Y Parti, 02 Llundain** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | 1 |
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | 4* |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | 5* |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| Tue 21 | *Rick Astley, Caerdydd* | 1 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | 6* |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Stori Buddy Holly, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | 5* |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3* |
| Llun 8 | **Gwesty Warner—Thorseby Hall** | 5* |
| Sad 13 | **Rheilffordd Mynydd Aberhonddu** | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Waitress, Caerdydd* | 1 |
| Maw 16 | *Take That, Caerdydd (Bws yn unig, dim tocyn)* | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | 6* |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |

**2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.**

Gwasanaeth drws i ddrws ar y teithiau yma / Llyfryn 2026 ar gael nawr!
Gallwch archebu ar lein, dros y ffon, neu mewn person yn ein swyddfa



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 3ydd Tach | BELGRAVE SANDS " Torquay & Tinsel" | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 7fed Tach | DERBY ac ymweld a Marchnad Nadolig CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Iau 13eg Tach | "HOLLY and MISTLETOE yn LLANDUDNO | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 21ain Tach | Marchnadoedd Nadolig MANCEINION a CAER | £305 | 3 Diwrnod |
| Mon 24ain Tach | Hud y NADOLIG yn MORECAMBE | £520 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Tach | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn TORQUAY | £210 | 4 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD YN LLUNDAIN | £325 | 3 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn PAIGNTON | £380 | 4 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | CAROLAU NADOLIG, NEUADD FRENHINOL ALBERT, LLUNDAIN | £420 | 3 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | NADOLIG CYMREIG yn BABBACOMBE | £320 | 4 Diwrnod |
| Llun 15fed Rhag | Marchnadoedd NADOLIG BRUGES, GHENT a LILLE | £695 | 5 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch y FLWYDDYN NEWYDD YN PAIGNTON | £585 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch DYDD CALAN gyda'r Gwyddelod yn WATERFORD | £595 | 4 Diwrnod |

## 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 9fed Ion | PENWYTHNOS o fwynhau yn y BELGRAVE SANDS, TORQUAY | £290 | 4 Diwrnod |
| Gwe 23ain Ion | Cerddoriaeth Teyrnged llawn hwyl yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Chwef | LLANDUDNO Teithio'r moroedd mawr dros nos i wahanol wledydd | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 13eg Chwef | WESTON SUPER MARE | £345 | 4 Diwrnod |
| Llun 16eg Chwef | DISNEYLAND PARIS (Amser gwyliau Ysgol, prisiau teulu] | Ffoniwch | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Chwef | [Newydd] HARROGATE "Super Singles" Ystafelloedd Sengl yn unig | £560 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Chwef | CAERNARFON Dewi a'i Ffrindie yn rocio Gwesty'r CELT [Hwyl di ri] | £280 | 3 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 1 – Stillorgan) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 2 – Bonnington] | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN (3 – Enniscorthy) | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mawrth | [Newydd] Penwythnos dirgelwch y llofruddiaeth yn TORQUAY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 12fed Mawrth | Darganfyddwch ardal DOC MARTIN yn ST AGNES, arfordir CERNYW | £450 | 5 Diwrnod |
| Llun 16eg Mawrth | [Newydd] DAWLISH WARREN ac arfordir DYFNAINT | £445 | 4 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mawrth | LOOE, arfordir Cernyw, a'r "EDEN PROJECT" | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mawrth | Penwythnos yn EFROG a'r ardal | £350 | 4 Diwrnod |
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a tê a chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £590 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | [Newydd] CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLD's | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | [Newydd] PASHLEY MANOR – "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | [Newydd] BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |
| Sad 2ail Mai | Teithiau amrywiol o amgylch Ynys JERSEY | £865 | 8 Diwrnod |
| Sad 9fed Mai | [Newydd] ALPAU FFRAINC, CHAMONIX a Llyn ANNECY | £1,215 | 8 Diwrnod |

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk

CYFRES Wenfro

# Calan GWEaf!

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Rhoswen, yr hwch, wedi gwisgo fel yr **Hwch Ddu Gwta** i ddosbarthu ei phwmpenni Calan Gaeaf. **Faint o gorynnod welwch chi yn cuddio ymysg y pwmpenni brawychus?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/11/25**

**Ateb Cystadleuaeth Pwll Pysgod:**
19 o bysgod llwyd oedd yn cuddio ymysg y gwymon gwyrdd.

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

# CHWARAEON
# Clwb Pel Droed Llanboidy



**Tymor 2025-26**
Mae tymor 2024-25 bellach wedi dechrau i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae nifer o gemau erbyn hyn. Mae'r adran iau hefyd wedi dechrau ac yn aml yn chwarae ar foreau dydd Sadwrn.

**Tîm 1af**
Mae'r tîm cyntaf, sy'n chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2025-26, wedi chwarae pedair gêm dros y mis diwethaf, ond gorfwyd chwarae gêm gwpan ddwywaith yn anffodus gan fod un o'n chwaraewyr wedi cael anaf yn ystod y gêm a gorffenodd y gêm yn gynnar.

Bydd ein hymarferion o Hydref 20fed ymlaen, bob nos Lun ar Astro Canolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8.00-9.00yh. Croeso cynnes i bawb. Mae'r canlyniadau dros y mis diwethaf isod:

Medi 13eg : Llanboidy 4-0 Crannog (Ethan Ryan, Gethin Scourfield, Ifan Jones a Ryan Taylor)
20fed : Llanboidy 4-2 Bont (Gethin Scourfield x 3, OG) – gêm wedi ail chwarae ar 04.10.
27ain : Llanboidy 0-2 Castell Newydd Emlyn
Hydref 4ydd: Llanboidy 2-4 Bont (Gethin Scourfield x 2)

**2il Dîm**
Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2025-26. Bydd ein hymarferion ar gyfer Hydref 20fed ymlaen bob nos Lun ar Astro Canolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8.00-9.00yh. Croeso cynnes i bawb.

Medi 27ain: Llandysul 5-1 Llanboidy (Luca Jones)
Hydref 4ydd : Llandudoch 5-1 Llanboidy (Lewis Thompson)

**Adran Iau**
Mae'r timoedd adran Iau yn parhau i chwarae, a hynny fel arfer ar foreau Sadwrn. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd hyd yma eleni. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb!

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

**Rhodri Lewis**



**Dan 8 Llanboidy yn dilyn gem yn ddiweddar**



**Dan 10 Llanboidy yn dilyn gem yn ddiweddar**

Bwyd Byd Byb
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# Clwb Rygbi San Clêr

Ar ôl mis cyntaf y tymor i'n tîm cyntaf, rydym yn myfyrio ar ddwy golled yn y gynghrair ac un buddugoliaeth yn y Cwpan.

Yn dilyn colled agos 10 - 15 yn erbyn Llanbed yn y gêm agoriadol, cafodd ein hail gêm gynghrair yn erbyn ein cymdogion, Lacharn, a oedd wedi'i threfnu ar ddydd Sadwrn, Medi 20fed, ei heffeithio gan y tywydd ar yr eiliad olaf. Gyda'r garfan wedi cynhesu i fyny am 2:30pm, penderfynodd y dyfarnwr nad oedd y cae yn addas i chwarae oherwydd dŵr arwynebol a chyflwr y cae a waethygodd ymhellach. Roedd hyn yn alwad cywir, er gwaethaf ymdrechion gorau pawb i gael y gêm ymlaen.

Ein gêm nesaf ar y 27ain Medi oedd yn y Cwpan gyda thaith i Ystradgynlais yn Nyffryn Tawe. Gyda nifer o chwaraewyr newydd o'r tîm ieuenctid y llynedd, roeddem dan bwysau yn erbyn y tîm cartref a oedd wedi dechrau'n gryf yn eu cynghrair eleni gyda 2 fuddugoliaeth. Roedd ei blaenwyr trefnus a'u cefnwyr dawnus yn achosi problemau i ni yn yr hanner cyntaf ac roeddem ar ei hôl hi 26 - 12, gyda cheisiau gan Callum Evans a'r capten Tomos Williams yn ein cadw yn y gêm. Yn amlwg, cafodd y sgwrs tîm hanner amser, effaith gadarnhaol gyda'r Seintiau'n sgorio 29 pwynt heb ateb i ennill 26 - 41. Arddangosfa wych gan y blaenwyr a'r cefnwyr i sicrhau'r fuddugoliaeth, dan arweiniad y capten Tomos Williams gyda'r cais gorau yn yr ail hanner. Mae ein gêm ail rownd yn ein gweld yn teithio i'r Coed Duon ar y 25ain Hydref.

Wrth ddychwelyd i ddyletswyddau'r gynghrair, roedd ymweliad â Felinfoel ar y 4ydd Hydref yn ein disgwyl ac er gwaethaf nifer o anafiadau, roeddem yn edrych ymlaen at y gêm gan ein bod wedi gwneud yn dda y tymor diwethaf yn y gemau oddi cartref. Gyda'r amodau wedi'u heffeithio gan storm Amy, chwaraeodd y Seintiau gyda'r gwynt yn yr hanner cyntaf. Er gwaethaf y fantais, roeddem ar ei hôl hi 12 - 0 ar yr hanner yn erbyn tîm Felinfoel, oedd wedi'i hyfforddi'n dda. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau yn yr ail hanner, roedd yn anodd yn erbyn y gwynt wrth i ni gael ein dal yn ôl yn ein hanner am gyfnodau hir. Nid oedd ceisiau gan Dafydd Rees a Seimon Jones yn ddigon gyda'r sgôr terfynol yn 25 - 12. Ein gêm nesaf ar yr 11eg Hydref yn erbyn Yr Hendy, gartref.

Cafodd dwy gem ein tîm Ieuenctid eu gohirio, bydd rhain yn cael ei hail drefnu. Aeth y gêm oddi cartref yn erbyn Pontyberem ymlaen ar y 13eg Medi gyda'r sgôr yn gyfartal 31 - 31 ar y diwrnod. Gêm gwpan yn erbyn Ffwrnais ar y 4ydd Hydref welodd y Seintiau Ifanc yn symud ymlaen i'r rownd nesaf o Gwpan Sir Gaerfyrddin ar ôl buddugoliaeth o 29 - 22. Mae gêm gyfeillgar wedi'i threfnu yn erbyn Neyland ar yr 11eg Hydref. Mae'r rownd gyntaf o'r Cwpan Cenedlaethol yn gêm gartref yn erbyn Porthcawl ar y 25ain Hydref.
Mae ein tîm datblygu wedi chwarae 2 gêm yn nhymor Cynghrair Llanelli a'r ardal y mis hwn gyda buddugoliaeth o 27 - 7 dros Derwyddon Athletig Caerfyrddin a buddugoliaeth o 31 - 18 yn erbyn Seintiau Llanbed. Braf gweld y garfan ehangach yn cymryd rhan ac yn cystadlu ar y lefel hon.

**Gwyndaf Williams**







**Lluniau Chris Rees**

# Clwb Rygbi Hendy Gwyn



**Tim Cyntaf**

Medi 13eg – Doedd dim modd i ni ffurfio tîm i chwarae yn erbyn Athletic Caerfyrddin oherwydd anafiadau a nifer ar wyliau. Roedd Athletic yn hynod o gefnogol ac yn cytuno i ail-drefnu'r gêm.
20fed – Adref yn erbyn Betws, buddugoliaeth o 22-13. Chwarae da gyda rhai wynebau newydd yn y tîm.
27ain – I ffwrdd yn erbyn Nantgaredig, colli 49-34. Yr un hen arfer o golli momentwm yn y 10 munud olaf pan sgoriodd Nantgaredig y cais buddugol.
Hydref 4ydd - Adref yn erbyn Abergwaun, colli 20-37. Roedd yn edrych fel nad oedd y dynion eisiau bod ar y cae!
11eg - I ffwrdd i Benclawdd – gobeithio am ganlyniad gwell.

**Menywod**
Medi 14eg – Adref erbyn West Swansea Hawks, buddugoliaeth o 21-12. Llawer o wynebau newydd yn y tîm sy'n dechrau dod i adnabod ei gilydd.
Medi 21ain – I ffwrdd yn erbyn Gwernyfed, buddugoliaeth o 22-45. Gêm ragorol o rygbi ar ddiwrnod sych braf. Danielle Lawrence yn sgorio 5 cais ar gae sych anarferol i Gwernyfed.
Medi 28ain – Roeddem i fod i chwarae yn erbyn Llanbed ond doedd ganddynt ddim tîm oherwydd anafiadau a diffyg niferoedd. Rydym yn disgwyl dyddiad newydd ar gyfer y gêm hon.
Hydref 12fed – i ffwrdd yn erbyn Senghennydd, disgwyl brwydr galed rhwng y blaenwyr.

**Hwb dan 18**
Yn ei chael hi'n anodd ffurfio tîm, er ein bod wedi chwarae yn erbyn rhai timau gyda dim ond 7 chwaraewr.

**Dan 16**
Mae'r tim dan 16 yn chwarae yn erbyn Hwlffordd ar Hydref 10fed ac yn erbyn Sharks ar Hydref 17eg.

**Dan 12 a 14**
Dechreuodd y tymor i'r tim dan 12 a'r tim dan 14 yr wythnos diwethaf – colli yn erbyn y Wiberod wnaeth y tim dan 12, ond gwnaeth y tim dan 14 ennill yn ei herbyn.
Maent yn chwarae yng nghystadleuaeth y Cwpan penwythnos nesaf.

**Suzanne Davies**

**Rygbi 7 bob ochor**

Llongyfarchiadau mawr i Sara Davies sydd wedi ei phenodi yn Bennaeth Gweithrediadau gyda tim Rygbi Saith bob ochor Prydain Fawr.

Bydd Sara'n gweitho yng Nghaerdydd gyda'r tim menywod ac yn yr Alban gyda'r tim dynion. Mae Sara yn ferch i Suzanne Davies a'r diweddar Jim Davies.

Dymuna'r Cardi Bach bob llwyddiant i Sara yn y swydd. ( Gol )



**Sara Davies**




T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181